------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 61)

Ken Skates AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol - Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Simon Jones, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh
Mick McGuire, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil (Papur briffio yn y Gymraeg i ddilyn ddydd Llun)

EIS(5)-08-16 (p1) Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

## 3 Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18

(11.00-12.00) (Tudalennau 62 - 105)

Julie James AM, Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth
Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp SAUDGO
Steve Hudson, Uwch Rheolwr Cyllid

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil (Papur briffio yn y Gymraeg i ddilyn ddydd Llun)
EIS(5)-08-16 (p2) Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

## 4 Papurau i'w nodi

**Dogfennau atodol:**

4.1 **Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â 'Deiseb P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot'**

(Tudalennau 106 - 107)

Dogfennau atodol:
EIS(5)-08-16 (p3) Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â 'Deiseb P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot'

4.2 **Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Gwladol dros Newid Hinsawdd a Diwydiant ynghylch y diwydiant dur yng Nghymru**

(Tudalennau 108 - 111)

Dogfennau atodol:
EIS(5)-08-16 (p4) Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Gwladol dros Newid Hinsawdd a Diwydiant ynghylch y diwydiant dur yng Nghymru
(Saesneg yn unig)

4.3 **Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Brif Weinidog y DU ynghylch y diwydiant dur yng Nghymru**

(Tudalennau 112 - 114)

Dogfennau atodol:
EIS(5)-08-16 (p5) Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Brif Weinidog y DU ynghylch y diwydiant dur yng Nghymru

4.4 **Llythyr gan Gonsortiwm Manwerthu Cymru ynghylch ardrethi busnes**

(Tudalen 115)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-08-16 (p6) Llythyr gan Gonsortiwm Manwerthu Cymru ynghylch ardrethi busnes (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 - Trafodaeth ar flaenoriaethau

(12:00-12:30)

## 7 Adolygiad Diamond - trafodaeth ar argymhellion

(12:30-12:35)

(Tudalennau 116 - 118)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-08-16 (p7) Llythyr drafft adolygiad Diamond (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Memorandwm ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2017-18 ar gyfer yr Economi a'r Seilwaith

## Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau - 3 Tachwedd 2016

## 1.0 Rhagarweiniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion y gyllideb ar gyfer yr Economi a'r Seilwaith fel y'u nodir yng Nghyllideb Ddrafft 2017/18 a gyhoeddwyd ar 18 Hydref 2016. Nid yw'n cynnwys manylion y gyllideb ar gyfer Diwylliant. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn rhoi sylw i hyn yn y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 2 Tachwedd 2016. Nid yw ychwaith yn cynnwys meysydd Sgiliau, y Seilwaith TGCh, Gwyddoniaeth, Arloesi a Gwyddorau Bywyd. Ymdrinnir â'r rhain mewn papur ar wahân a gyflwynir i'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Symud Cymru Ymlaen 2016-21 sy'n nodi ei blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf i sicrhau rhagor o swyddi a swyddi gwell drwy greu economi gryfach a thecach, i wella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, ac i adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Bydd y portffolio'n cyfrannu at wireddu blaenoriaethau allweddol yr Economi a'r Seilwaith o dan y pedair strategaeth sydd yn Symud Cymru Ymlaen, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau posibl.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd wedi darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ein cynllun ac rydym wedi mabwysiadu safbwynt tymor hir ac ymagwedd integredig wrth wneud y penderfyniadau sy'n gefn i saith nod y Ddeddf.

## 2.0 Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Yn y Gyllideb Ddrafft, cyhoeddir cynlluniau gwariant refeniw ar gyfer 2017-18 yn unig. Mae hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru asesu effaith Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r cynlluniau cyfalaf pedair blynedd yn cynnwys cyllideb gadarn ar gyfer 2017-18 a dyraniadau dangosol ar gyfer y tair blynedd wedyn. Bydd ymagwedd tymor hir fel hyn at gynllunio cyfalaf yn cynnig rhagor o dryloywder a sicrwydd i'n prif randdeiliaid a'n partneriaid cyflawni ym maes trafnidiaeth a'r economi.

Yn gyffredinol, mae dyraniadau adnoddau 2017-18 i gefnogi'r Economi a'r Seilwaith (ac eithrio'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)) wedi cynyddu £86.25m. Mae'r symudiad hwn yn cynnwys cynnydd refeniw o £6.25m a chynnydd nad yw'n arian parod o £80m fel y'i dangosir yn Nhabl 1:

| TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw | | | |
|---|---|---|---|
| | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000** | **Newidiadau 2017-18 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000** |
| **Refeniw** | | | |
| Yr Economi | 47,762 | 1,398 | 49,160 |
| Trafnidiaeth | 295,168 | 4,852 | 300,020 |
| **Is-gyfanswm** | **342,930** | **6,250** | **349,180** |
| **Nid yn Arian Parod** | | | |
| Trafnidiaeth | 108,691 | 80,000 | 188,691 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | **451,621** | **86,250** | **537,871** |
| **AME** | | | |
| AME | 36,834 | 75,231 | 112,065 |

Dros y cyfnod 2017-18 tan 2020-21, cyfanswm y gyllideb cyfalaf yw £1.461bn sy'n cynnwys £1.354bn o gyllid cyfalaf traddodiadol a £107m o Gyllid ad-daladwy'r Gronfa Trafodion Ariannol Wrth Gefn (FTR)[1]. Dangosir y cyllidebau cryno yn Nhabl 2 isod:

| TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Cyfalaf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000** | **Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft** | | | | |
| | | **2017-18 £'000** | **2018-19 £'000** | **2019-20 £'000** | **2020-21 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | |
| Economi | 45,947 | 66,002 | 47,839 | 46,788 | 28,606 | **189,235** |
| Trafnidiaeth | 278,666 | 336,486 | 226,877 | 254,867 | 346,428 | **1,164,658** |
| **Is-gyfanswm** | **324,613** | **402,488** | **274,716** | **301,655** | **375,034** | **1,353,893** |
| **Cronfa Trafodion Ariannol Wrth Gefn** | | | | | | |
| Yr Economi | 25,000 | 43,605 | 15,720 | 31,500 | 8,000 | **98,825** |
| Trafnidiaeth | 0 | 5,000 | 2,200 | 1,200 | 0 | **8,400** |
| **Is-gyfanswm** | **25,000** | **48,605** | **17,920** | **32,700** | **8,000** | **107,225** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | | | | | | |
| Economi | 70,947 | 109,607 | 63,559 | 78,288 | 36,606 | **288,060** |
| Trafnidiaeth | 278,666 | 341,486 | 229,077 | 256,067 | 346,428 | **1,173,058** |
| **CYFANSWM** | **349,613** | **451,093** | **292,636** | **334,355** | **383,034** | **1,461,118** |

Mae'r cynlluniau gwariant hyn wedi'u cysoni â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac maent yn ein galluogi i ddechrau gwireddu prif flaenoriaethau Symud Cymru Ymlaen 2016-21.

[1] Mae'r Gronfa Trafodion Ariannol Wrth Gefn ar gael ar gyfer benthyciadau polisi, yn bennaf ar gyfer buddsoddiadau benthycia ac ecwiti, ac mae'n ad-daladwy i'r Trysorlys

Gan fod rhai prosiectau blaenllaw'n dal yn eu babandod o ran llunio'u cynlluniau cyflawni, mae rhywfaint o gyllid wedi'i glustnodi mewn cronfeydd canolog i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni. Dangosir y cyllid ar gyfer gweithgareddau'r Economi ac Arloesi a gedwir yng nghronfa ganolog wrth gefn Llywodraeth Cymru yn Nhabl 3 isod:

**TABL 3: Cyllid Cyfalaf a gedwir yn y Gronfa Ganolog Wrth Gefn**

| Gweithgarwch | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| M4 | 24,000 | 256,023 | 325,609 | 331,991 | **937,623** |
| Metro De Cymru | 5,088 | 27,440 | 41,400 | 35,500 | **109,428** |
| **Cyfanswm** | **29,088** | **283,463** | **367,009** | **367,491** | **1,047,051** |

## 2.1 Refeniw

Wrth lunio ein cynlluniau gwario ar gyfer 2017-18 rydym wedi ceisio lliniaru effaith y gostyngiadau ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a thwf a swyddi yn y tymor byr. Dros y tymor hwy, bydd angen inni rannu adnoddau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio â'n partneriaid i sicrhau arbedion effeithlonrwydd tymor hir. Byddwn yn cynnwys pobl wrth inni wneud penderfyniadau yn y dyfodol i lywio'n blaenoriaethau.

Sicrhawyd dyraniadau ychwanegol o £8m i gefnogi'r cytundeb â Phlaid Cymru ynghylch y gyllideb. Bydd cyllid ychwanegol o £5m i gefnogi Croeso Cymru, £2m ar gyfer Cronfa Seilwaith Porthladdoedd, £0.2m ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i lwybr beicio cenedlaethol, £0.3 m ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i ailagor y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth a £0.5m ar gyfer llwybrau mwy diogel i'r ysgol. Llwyddwyd i arbed £1.75m drwy ganfod arbedion effeithlonrwydd, ailbroffilio cynlluniau cyflawni ac ailasesu'r gofynion gwariant ar gyfer rhaglenni. Mae hyn wedi arwain at gynnydd net mewn refeniw gwerth £6.250m.

Mae'r gyllideb wedi'i hailgysoni hefyd i gyfuno'r gweithgarwch hedfanaeth ar gyfer Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan drwy drosglwyddo £2.948m o'r Sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (Cyllideb yr Economi) i Wasanaethau Awyr (Cyllideb Trafnidiaeth).

Rhoddir y manylion am y symudiadau yn nyraniadau'r gyllideb ar lefel Camau Gweithredu o gyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 i ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2017-18 yn **Atodiad A**.

## 2.2 Nid yn Arian Parod

Mae'r dyraniad ychwanegol, £80m o'r gronfa gadw nad yw'n arian parod yn cefnogi'r gofynion cyllidebol ar gyfer rhwydwaith y traffyrdd a'r priffyrdd.

## 2.3 Cyfalaf

Bydd gallu fforddio'r rhaglenni cyfalaf dros gyfnod pedair blynedd y gyllideb yn her o hyd. Byddwn yn parhau i fabwysiadu dull gwario ataliol, gan werthuso manteision a chanlyniadau hirdymor ein buddsoddiadau strategol i sicrhau'r manteision economaidd gorau posibl a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Bydd cyfleoedd cyllido arloesol a chyfleoedd eraill i gryfhau ein hadnodd ariannol yn bwysig, yn ogystal â blaenoriaethu a dull hyblyg o gynllunio ein buddsoddi er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r pwerau benthyca cyfalaf sydd wedi'u darparu drwy Ddeddf Cymru 2014 i hybu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael inni, yn benodol i gefnogi ariannu'r M4 newydd yn amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus.

Bydd sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol newydd i Gymru'n bwysig wrth asesu'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer yr Economi yw oddeutu £288m a bydd hyn yn gefn i ystod eang o flaenoriaethau. Byddwn yn parhau i ddarparu llwybr ariannu i Fentrau Bach a Chanolig drwy ein cronfeydd datblygu busnes gan gynnwys y rheini sydd o fewn Cyllid Cymru. Bydd creu'r Banc Datblygu newydd i Gymru'n cryfhau'r cynllun polisi hwn ac fe'i cefnogir drwy ddarparu £46m o gyllid trafodion ariannol dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu ar gyfer Cyllid Ad-daladwy i Fusnesau a chamau i fagu hyder ym myd busnes megis y Gronfa Twf a Ffyniant.

Wrth greu'r amgylchiadau iawn ar gyfer cyfleoedd i sicrhau twf a chyflogaeth cynaliadwy, bydd £52m o gyllid cyfalaf ar gael dros y pedair blynedd i ddatblygu safleoedd strategol sy'n rhan hanfodol o'n cynnig i fusnesau wrth annog buddsoddi yng Nghymru.

Mae sicrhau cysylltedd trafnidiaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn hanfodol er mwyn creu cydlyniant cymdeithasol ac agor y drws ar gyfleoedd i gael gwaith. Dros y pedair blynedd nesaf, dyrennir £1.173bn i flaenoriaethu cynlluniau a nodir yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015. Yn ogystal â hyn, bydd £938m yn cael ei gadw yng nghronfa ganolog wrth gefn Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffordd liniaru'r M4, a dibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus. Gan gydnabod bod datblygu systemau trafnidiaeth integredig hefyd yn ysgogiad pwysig ar gyfer twf economaidd, mae cyfanswm o £369m ar gael (gan gynnwys £109m yng nghronfa ganolog wrth gefn Llywodraeth Cymru) ar gyfer Metro'r de ac mae cyllid ar gael i ddatblygu Metro'r gogledd. Mae'r cynlluniau gwariant ar gyfer Trafnidiaeth hefyd yn cynnwys bron £300m ar gyfer cynnal a chadw a gwella ffyrdd.

Mae tablau Llinell Wariant y Gyllideb yn **Atodiad B** yn rhoi manylion llawn am gyllidebau refeniw a chyfalaf y portffolio.

Mae MEG yr Economi a'r Seilwaith hefyd yn cynnwys dyraniad yn y gyllideb ar gyfer AME, sy'n darparu ar gyfer costau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis lleihad yn y portffolio eiddo, mentrau ar y cyd, buddsoddiadau a'r rhwydwaith ffyrdd.

## 3.0 ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG STRATEGOL

Yn **Atodiad C,** rhestrir y prif ystyriaethau wrth inni benderfynu ynghylch y gyllideb a sut mae'r effeithiau ar gydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg wedi dylanwadu ar y dyraniadau. Mae hefyd yn nodi'r ymrwymiad tymor hir i liniaru effaith amddifadedd a thlodi.

## 4.0 YR ECONOMI - CYLLIDO MEYSYDD RHAGLENNI GWARIANT

O'i gymharu â chyllideb Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18, gwelir cynnydd net o £1,398m yn y dyraniad refeniw, o fewn maes cyffredinol y rhaglen. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf dros y cyfnod 2017-18 tan 2020-21 yw £288.06m.

| Yr Economi | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 47,762 | 1,398 | 49,160 |

| Yr Economi | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 45,947 | 66,002 | 47,839 | 46,788 | 28,606 | **189,235** |
| FTR | 25,000 | 43,605 | 15,720 | 31,500 | 8,000 | **98,825** |
| **Cyfanswm** | **70,947** | **109,607** | **63,559** | **78,288** | **36,606** | **288,060** |

Bydd dyraniadau ein cyllideb yn sbarduno buddsoddi yn yr economi wrth inni ddechrau gwireddu prif flaenoriaethau Symud Cymru Ymlaen. Er nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â setliadau ariannol refeniw'r dyfodol, canolbwyntir yr adnoddau ar weithgareddau i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bob unigolyn yn y dyfodol agos.

### 4.1 Sectorau a Busnes

| SPA Sectorau a Busnes[1] | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw[1] | 33,541 | 1,952 | 35,493 |

[1] Nid yw'n cynnwys Gwyddoniaeth, Arloesi a Gwyddorau Bywyd

| Sectorau a Busnes[1] | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |

| | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Traddodiadol | 61,672 | 59,857 | 44,314 | 44,073 | 25,061 | **173,305** |
| FTR | 25,000 | 25,750 | 8,500 | 25,400 | 3,000 | **62,650** |
| **Cyfanswm** | **86,672** | **85,607** | **52,814** | **69,473** | **28,061** | **235,955** |

[1] Nid yw'n cynnwys Gwyddoniaeth, Arloesi a Gwyddorau Bywyd

Mae'r cyllidebau ar gyfer Sectorau a Busnes yn allweddol er mwyn sicrhau twf a swyddi cynaliadwy, a hefyd maent yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi, yr agenda addysg a'r agenda cyfle cyfartal. Mae'r gyllideb yn cefnogi cyflawni yn y Sectorau sy'n Flaenoriaeth sy'n cael eu llywio gan ddiwydiant, Entrepreneuriaeth, Masnach a Mewnfuddsoddi a Pharthau Menter.

#### 4.1.1 Sectorau

| Cam Gweithredu yn y Sectorau[1] | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 29,310 | 1,952 | 31,262 |

[1]Nid yw'n cynnwys Gwyddorau Bywyd

| Sectorau | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 61,672 | 59,857 | 44,314 | 44,073 | 25,061 | **173,305** |
| FTR | 25,000 | 25,750 | 8,500 | 25,400 | 3,000 | **62,650** |
| **Cyfanswm** | **86,672** | **85,607** | **52,814** | **69,473** | **28,061** | **235,955** |

Dangosir manylion y gweithgareddau yn ôl Llinell Wariant y Gyllideb yn **Atodiad B**.

Mae'r cynnydd o £1.952m yng nghyllideb refeniw'r Sectorau, fel y'i nodir yn **Atodiad A**, yn berthnasol i ddyraniad ychwanegol fel rhan o'r cytundeb ynghylch y gyllideb i ddarparu £5m ar gyfer gweithgareddau Croeso Cymru i hybu Cymru fel lle o'r radd flaenaf i ymweld ag ef, i fyw ac i astudio ynddo, ac yn erbyn hynny gosodir trosglwyddiad o £2.948m yn y gyllideb i Gam Gweithredu Gwasanaethau'r Rheilffyrdd ac Awyr ar gyfer gweithgareddau hedfanaeth ac arbediad o £0.1m a ragwelir yn sgil adolygu rhaglenni.

Mae cyllideb cyfalaf y Sectorau, sef £235.955m yn cefnogi prosiectau strategol sydd wrthi'n cael eu cyflawni, y Gronfa Twf a Ffyniant a chronfeydd buddsoddi Banc Datblygu Cymru.

#### 4.1.2 Entrepreneuriaeth

| Cam Gweithredu Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Busnes | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,231 | 0 | 4,231 |

Mae'r £4,231m yn y gyllideb ar gyfer Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Busnes yn cefnogi entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, mentrau bach a chanolig ac arferion cyfrifol ym maes busnes. Bydd arferion cyfrifol ym maes busnes yn hwyluso ymrwymiadau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy fynnu bod busnesau'n ymddwyn yn foesegol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi. Mae'r gyllideb hefyd yn denu cyfanswm o £39m o arian yr Undeb Ewropeaidd drwy raglen Busnes Cymru 2013-2029 sy'n werth £65m. Rheolir arian yr Undeb Ewropeaidd yn unol â gofynion y gyllideb graidd dros gyfnod y rhaglen.

## 4.2 Digwyddiadau Mawr

| Cam Gweithredu Digwyddiadau Mawr | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 3,918 | 0 | 3,918 |

Bydd y gyllideb o £3.918m ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn cefnogi gwaith i ddenu mwy o ddigwyddiadau rhyngwladol mawr i Gymru, yn ogystal â datblygu portffolio cryf o ddigwyddiadau 'unigryw' sy'n 'gynnyrch cartref'.

## 4.3 Seilwaith Cysylltiedig ag Eiddo

| Cam Gweithredu Cyflawni Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,026 | 0 | 4,026 |

| Cyflawni Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfan swm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | (15,815) | 6,041 | 3,405 | 2,577 | 3,386 | **15,409** |
| FTR | 0 | 17,855 | 7,220 | 6,100 | 5,000 | **36,175** |
| **Cyfanswm** | **(15,815)** | **23,896** | **10,625** | **8,677** | **8,386** | **51,584** |

Mae'r gyllideb refeniw, £4.026m, yn darparu ar gyfer rheoli a datblygu'r portffolio eiddo, gweithgarwch adfer tir a chynigion eiddo i fusnesau.

Yn 2016-17, cynlluniwyd ar gyfer derbyniadau cyfalaf sylweddol yn sgil gwerthu safleoedd strategol gan arwain at incwm ychwanegol net o £15.815m i gefnogi

blaenoriaethau'r gyllideb. Bydd y gyllideb cyfalaf, £51.584m, yn darparu ar gyfer datblygu safleoedd strategol i gefnogi blaenoriaethau'r sector a blaenoriaethau gofodol ledled Cymru.

## 4.4 Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol

| SPA Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 6,277 | (554) | 5,723 |

| Cam Gweithredu Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfan swm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 90 | 104 | 120 | 138 | 159 | **521** |

Mae'r gyllideb yn cynnwys y grant gweithredol ar gyfer Cyllid Cymru, rhaglen Her Iechyd Cymru, ad-daliadau'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, a gweithgarwch cefnogi'r strategaeth.

### 4.4.1 Rhaglenni Corfforaethol

| Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,117 | (134) | 3,983 |

| Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol | Cyllideb Atodol Gyntaf 2017- 18 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfan swm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 90 | 104 | 120 | 138 | 159 | **521** |

Mae'r gyllideb refeniw'n cefnogi Her Iechyd Cymru, ad-daliadau'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, dadansoddiadau economaidd ac ymgysylltu strategol. Mae'r gostyngiad o £0.134m yn berthnasol i ofyniad llog is ar ddyled y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol a gostyngiad yn y gofyniad ar gyfer adolygiadau corfforaethol.

Mae'r gyllideb cyfalaf yn berthnasol i ad-daliadau i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn unol â'r amserlenni ad-dalu y cytunwyd arnynt o'r blaen.

### 4.4.2 Cyllid Cymru

| Cam Gweithredu Cyllid Cymru | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 2,160 | (420) | 1,740 |

Mae'r gyllideb hon yn darparu grant gweithredu ar gyfer Cyllid Cymru sy'n cefnogi gweinyddu cronfeydd buddsoddi ar gyfer busnesau. Mae'r grant wedi'i ostwng £0.420m yn dilyn arbedion effeithlonrwydd gweithredol.

## 5.0 YR ECONOMI A'R SEILWAITH - PRIF BOLISÏAU

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol i ymateb i'r meysydd penodol y tynnwyd sylw atynt gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### 5.1 Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu Economaidd

Mae'r Rhaglen Lywodraethu newydd – Symud Cymru Ymlaen 2016-21 yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac mae i'w gweld yn: http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf.

Ein huchelgais yw adeiladu economi gryfach a sicrach, ac rydym yn ceisio barn am y blaenoriaethau ar gyfer yr economi gan bobl, busnesau a sefydliadau ledled Cymru i glywed eu safbwyntiau am eu blaenoriaethau ar gyfer twf yn y dyfodol.http://gov.wales/topics/businessandeconomy/welsh-economy/priorities-for-the-economy/?lang=cy

### 5.2 Y Gronfa Twf a Ffyniant

Lansiwyd y Gronfa Twf a Ffyniant, gwerth £5m, ar 18 Medi 2016 gyda darpariaeth i gefnogi Mentrau Bach a Chanolig ym mlwyddyn ariannol 2017-18. http://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2016/160919-new-growth-prosperity-fund-launches-this-week-to-support-jobs-and-business-growth/?lang=cy.

Bydd y gefnogaeth ar ffurf grantiau dewisol na fydd gofyn eu had-dalu ac ni fydd y rhain wedi'u cyfyngu i'r sectorau sy'n flaenoriaeth ond yn hytrach anogir ceisiadau'n benodol o bob rhan o'r economi.

Cynigir symiau'n amrywio o £50,000 hyd at fwyafswm o £500,000 (ar yr amod bod y cynigion yn cynnig gwerth am arian a'u bod o fewn terfynau cymorth gwladol) a byddant yn cynnig cyfle i ddenu buddsoddiadau preifat mawr eu hangen i Gymru.

### 5.3 Banc Datblygu Cymru

Bydd Banc Datblygu Cymru'n elfen graidd o bolisi a chyflawni economaidd Llywodraeth Cymru, ac mae wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu - Symud Cymru Ymlaen. Fe'i cefnogir gyda £46m dros y pedair blynedd.

Bydd y Banc yn adeiladu ar brofiad ac arbenigedd Cyllid Cymru sy'n dal i dorri pob record buddsoddi a fu yn y gorffennol gan iddo fuddsoddi dros £45m yn ystod 2015/16 ym musnesau Cymru. Yn sgil hyn, llwyddwyd i ddenu gwerth bron £65m o fuddsoddiadau ychwanegol gan arwain at dros £110m o gyfalaf twf yn cael ei chwistrellu i economi Cymru.

Amcan strategol y Banc fydd gwella gallu Mentrau Bach a Chanolig i gael gafael ar gyllid a chefnogi creu a diogelu swyddi. Ar yr un pryd, bydd hyn yn gwella integreiddio'r cyngor a'r cymorth cysylltiedig â buddsoddi a ddarperir ar gyfer busnesau drwy gydweithio'n fwy agos â Busnes Cymru.

### 5.4 Dinas-Ranbarthau

Mae datblygu dinas-ranbarthau ym Mae Abertawe a Phrifddinas Caerdydd yn cefnogi cysoni a chydweithio rhanbarthol i wireddu cyd-ddyheadau ar gyfer swyddi a thwf.

Yn y ddau ddinas-ranbarth, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cynigion ar gyfer Bargeinion Dinesig sydd wedi'u teilwra'n arbennig. Ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Bargen gwerth £1.2bn wedi'i llofnodi gan Awdurdodau Lleol y Rhanbarth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Metro De Cymru rhan hanfodol o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ym Mae Abertawe, mae cynnig ar gyfer Bargen Ddinesig wrthi'n cael ei baratoi i'w gyflwyno ym mis Tachwedd. Seilir hyn ar y ddogfen weledigaeth strategol 'Arfordir Rhyngrwyd' a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, sy'n ceisio safleoli'r rhanbarth fel canolfan brofi o bwys sy'n arloesi, yn profi ac yn masnacheiddio'n fyd eang ddatrysiadau seiliedig ar y rhyngrwyd a hynny mewn ystod o sectorau.

### 5.5 Y gogledd a datblygu economaidd trawsffiniol

Mae Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli ers tro bod y gogledd-ddwyrain yn elwa o ardal economaidd drawsffiniol sy'n estyn i ogledd-orllewin Lloegr ac i lawr i ganolbarth Lloegr. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i fusnesau a gweithwyr Cymru ac felly dyma pam yr ydym wedi cefnogi cyrff megis Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy gyhyd.

Cyhoeddodd y Canghellor yn ei gyllideb ddiwethaf ei fod yn agored i dderbyn cais Bargen Twf ar gyfer Gogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol i'r ystod eang o randdeiliaid ar draws y rhanbarth ac wedi datblygu a chyflwyno cynnig cychwynnol i Drysorlys EM. Bydd hyn yn destun rhagor o drafod dros y misoedd nesaf.

Cynhaliwyd uwch-gynhadledd i brif-randdeiliaid o ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr ym mis Gorffennaf. Y nod oedd casglu barn pobl am y blaenoriaethau sy'n codi i ogledd Cymru ac i geisio cytundeb ynghylch sut i ddiffinio gweledigaeth gydlynol ar gyfer y rhanbarth fel rhan o Bwerdy trawsffiniol y Gogledd. Cynhelir rhagor o drafodaethau yn yr Hydref.

### 5.6 Ardaloedd Menter

Mae rhaglen yr Ardaloedd Menter hefyd yn ceisio darparu'r seilwaith i greu lleoliadau ardderchog ar gyfer buddsoddi mewn busnesau ac i gynnig

cymhellion penodol i ddenu busnesau newydd i'r lleoliadau o fri hyn yng Nghymru. Mae'r dyraniad refeniw, £0.927, (BEL 3755) yn cefnogi'r astudiaethau dichonoldeb a'r achosion busnes. Mae ymchwil i'r Ardaloedd Menter wedi dangos bod cynlluniau seiliedig ar ardaloedd yn gallu cael dylanwad cadarnhaol ar gyflogaeth ac ar y GDP rhanbarthol[2].

Mae prosiectau strategol wedi bwrw gwreiddiau yng ngweithgarwch datblygu busnes y sector ac felly nid oes dyraniad cyfalaf wedi'i ddynodi.

Amcanion yr Ardaloedd Menter yw:

- Tyfu'r economi leol a darparu swyddi newydd
- Gweithredu fel catalydd ar gyfer twf mewn mannau eraill yng Nghymru
- Gwneud yr Ardal Fenter yn fwy deniadol i fuddsoddwyr
- Cryfhau gallu economi Cymru i gystadlu.

Cyhoeddir adroddiadau am berfformiad ac allbynnau'r Ardaloedd Menter (Dangosyddion Perfformiad Allweddol) ddwywaith y flwyddyn. Mae adroddiad am flwyddyn lawn 2015/6 ar gael yma: http://gov.wales/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/enterprisezones/?lang=cy

## 5.7 Ardaloedd Twf Lleol

Yn 2017-18, mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer datblygu a chyflawni, £0.263m, (BEL 4051) yn cefnogi nifer o flaenoriaethau rhanbarthol gan gynnwys y strategaeth ardaloedd twf lleol a chynlluniau rhanbarthol a thrawsffiniol eraill, gan gynnwys Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae adroddiadau'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym Mhowys ac yn Nyffryn Teifi wedi cynnig argymhellion eang eu hystod sy'n croesi ffiniau portffolios nifer o Weinidogion. Mae nifer o gamau'n cael eu datblygu drwy gydweithio ag awdurdodau lleol a'r sector preifat gan gynnwys gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus megis gwasanaethau trenau ychwanegol ar Brif Lein y Cambrian.

Mae gwybodaeth am yr Ardaloedd Twf Lleol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/local-growth-zones/?lang=cy

## 5.8 Ardaloedd Gwella Busnes

Mae Ardaloedd Gwella Busnes bellach yn rhan o'r Portffolio Cymunedau a Phlant.

## 5.9 Cymorth ar gyfer Allforio a Mewnfuddsoddi

Yn 2017-18, dyrannwyd £1.892m (BEL 3754) i gefnogi masnach a mewnfuddsoddi a fydd yn denu amcangyfrif o £1.299m mewn cyllid Ewropeaidd drwy gyfrwng Prosiectau ERDF Busnes Cymru. Bydd ysgogi allforion i

[2] http://www.whatworksgrowth.org/policy-reviews/area-based-initiatives/

farchnadoedd newydd ac i farchnadoedd sy'n bodoli eisoes yn flaenoriaeth o bwys yn ystod y pum mlynedd nesaf. Rydym yn helpu cwmnïau i dyfu eu busnes drwy allforio ac mae gennym ystod gynhwysfawr o wasanaethau i'w helpu i wireddu'r uchelgais honno. Gallwn eu helpu i ddod yn barod i allforio ac yn barod i'r farchnad ac wedyn i'w cysylltu â chyfleoedd a chwsmeriaid yn eu dewis marchnadoedd drwy helpu cwmnïau i deithio i farchnadoedd tramor, i arddangos mewn ffeiriau masnach, neu i gyfarfod â darpar gwsmeriaid.

Cyflawnir gweithgarwch mewnfuddsoddi drwy ddigwyddiadau, nawdd, seminarau a thanysgrifiadau ymchwil. Mae hefyd yn cynnwys cymorth ar gyfer ymweliadau â Chymru. Bydd y canlyniadau'n cael eu monitro'n ofalus o ran darparu gwerth am arian. Bydd pob gwariant yn cael ei gyfiawnhau ar sail achos busnes manwl.

Y llynedd, darparwyd cymorth i 385 o gwmnïau drwy gyfrwng 620 o ymyraethau unigol. Hyd at ddiwedd mis Medi eleni, rydym wedi rhoi cymorth gwerth £26.9m i gytundebau masnach o'i gymharu â tharged o £60m.

O ran perfformiad ym maes masnach, bydd gwerth am arian yn cael ei fesur ar sail gwerth y busnes allforio newydd a sicrheir gan y cwmnïau rhoddir cymorth iddynt. Yn 2015-16, cofnodwyd gwerth £69m o archebion mewn busnes newydd. Roedd hyn yn golygu bod yr adenillion ar y buddsoddi'n dros 41:1 o ran gwariant net ar raglenni. Rhoddwyd cymorth i 385 o gwmnïau drwy gyfrwng 620 o ymyraethau unigol.

Yn adroddiad blynyddol UKTI ar gyfer 2015-16, adroddwyd bod 97 o brosiectau mewnfuddsoddi wedi'u sicrhau yng Nghymru; roedd hyn fymryn yn is na'r lefelau uwch nag erioed a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, ond dyma'r ail nifer uchaf erioed o hyd. Roedd hyn yn cyfateb i 4.4% o gyfanswm nifer y prosiectau mewnfuddsoddi a sicrhawyd gan y Deyrnas Unedig ar gyfer 2015-16. Crëwyd bron 5,500 o swyddi yng Nghymru y llynedd yn sgil buddsoddi tramor (ychydig dros 7% o gyfanswm nifer y swyddi newydd yn y Deyrnas Unedig).

Mae ein rhaglenni cymorth i allforio eisoes yn cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru ym maes cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg. Mae'r gweithgarwch mewnfuddsoddi sy'n digwydd y tu allan i Gymru wedi cael ei eithrio o dan y Safonau newydd ar gyfer y Gymraeg. Felly, ni fydd y Safonau'n golygu gwariant ychwanegol wrth gynhyrchu llenyddiaeth ar gyfer marchnadoedd allanol.

### 5.10 Cymorth i'r diwydiant dur

Mae pecyn o gymorth posibl ar gael o hyd i gynigwyr yn sgil proses gwerthu Tata Steel yng Nghymru ac mae hyn yn cynnwys cynigion gan Tata neu gydfenter bosibl. Mae manylion y pecyn posibl yn fasnachol gyfrinachol.

Gweler diweddariad ynglŷn â chyfarfod diweddaraf Tasglu Tata Steel a gynhaliwyd ym mis Awst yma:
[http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/tatataskforce/?lang=cy](http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/tatataskforce/?lang=cy)

Darperir cymorth ehangach i'r diwydiant dur drwy fecanweithiau presennol y cymorth a roddir i'r Sectorau a Busnes, gan gynnwys Busnes Cymru.

## 5.11 Cymorth i Fentrau Cymdeithasol

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu arian ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru. Mae'r ddau gorff yn helpu i wireddu amcanion strategol Llywodraeth Cymru gyda golwg ar ddatblygu'r farchnad mentrau cymdeithasol a darparu cymorth busnes arbenigol wedi'i deilwra i helpu mentrau cymdeithasol nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes sy'n cael eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyllid ar gyfer 2017-18 wedi'i gadarnhau ar ôl adolygiadau gwerth am arian annibynnol.

Dyrannwyd £30,000 i Gwmnïau Cymdeithasol Cymru yng nghyllideb 2017-18 i alluogi'r corff i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi penodol ar gyfer sefydlu cwmnïau cymdeithasol i dyfu'r sector yng Nghymru.

Bydd Canolfan Cydweithredol Cymru'n cael arian craidd gwerth £100,000 yn 2017-18 i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi i dyfu'r sector cydweithredol a chymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru a bydd yn darparu cymorth busnes arbenigol i fentrau cymdeithasol nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes sy'n cael eu cyllido gan yr UE.

Bydd cyllid gwerth £1.5m gan Lywodraeth Cymru dros dair blynedd ariannol 2016-2018 i Fentrau Cymdeithasol (BEL 3894) hefyd yn cefnogi Prosiect Busnesau Cymdeithasol Cymru sy'n cael £11m o nawdd ERDF ac yn gweithredu ochr yn ochr â gwasanaeth prif ffrwd Busnes Cymru sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae prosiect Busnesau Cymdeithasol Cymru'n darparu cymorth busnes arbenigol i fusnesau cymdeithasol sydd ag uchelgais i dyfu. Gallai hyn olygu trawsnewid busnes mewn perchnogaeth draddodiadol neu wasanaeth cyhoeddus a chreu model dan berchnogaeth gweithwyr ac fe allai gynnwys trosglwyddo ased cymunedol neu beidio. Mae hefyd yn helpu Elusennau i sefydlu canghennau masnachu i fwrw ymlaen â syniadau masnachol.

## 5.12 Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020 - Strategaeth Twristiaeth

Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer Twristiaeth a Marchnata, £15.762m (BEL 6250) yn cefnogi gweithgarwch hyrwyddo a buddsoddi cyfalaf. Mae cyllidebau'r sector wedi cael eu hailflaenoriaethu i ddarparu cyllideb ychwanegol o 0.5m ar gyfer marchnata i hyrwyddo Cymru ac mae'n cefnogi gweithgarwch mewnfuddsoddi. Mae £5m ychwanegol i Croeso Cymru yn 2017-18 wedi'i gynnwys yng nghytundeb y gyllideb hefyd er mwyn parhau i hyrwyddo Cymru.

Lansiwyd *Partneriaeth ar gyfer Twf*, Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2020 ym mis Mehefin 2013. Mae Twristiaeth yn perfformio'n gryf yng Nghymru. Roedd y gwariant gan ymwelwyr fu'n aros yng Nghymru yn 2015 yn uwch nag erioed, sef £2.385 biliwn, o'i gymharu â £1.934 biliwn yn 2012, ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o gynnydd o 10% mewn termau real erbyn 2020.

Roedd y strategaeth hefyd yn nodi'r cyfle i gynyddu nifer yr ymwelwyr rhyngwladol a'u gwariant yng Nghymru drwy elwa o'r cynnydd posibl yn nifer yr ymwelwyr (40m erbyn 2020) a nodwyd gan Visit Britain. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael am flwyddyn lawn 2015 yn awgrymu bod twf calonogol wedi bod yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol sydd wedi ymweld â Chymru dros y pedair blynedd diwethaf; unwaith eto rydym ar y trywydd iawn i wireddu nodau'r strategaeth. Mae ymweliadau â Chymru gan ymwelwyr rhyngwladol wedi cynyddu 14% er 2010 a'r gwariant ar yr ymweliadau hyn wedi cynyddu 18%. Mae hyn yn gwrthdroi'r patrwm cyn 2012 lle'r oedd nifer yr ymweliadau â Chymru gan ymwelwyr rhyngwladol yn gostwng.

Mae'r targed ar gyfer twf yn un heriol ond rydym yn ffyddiog y gallwn sicrhau'r twf parhaus yn y farchnad gartref a sicrhau'r gyfran fwyaf posibl o'r cynnydd a ragwelir yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol i helpu i gynyddu a lledaenu'r ymweliadau yn ystod pob rhan o'r flwyddyn a ledled Cymru.

Dros y cyfnod 2017-18 tan 2020-21, buddsoddir £13m o arian cyfalaf (BEL 6250) i gefnogi'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth a'r prosiectau strategol yn Symud Cymru Ymlaen.

Mae Adolygiad o Gynnydd o'r Strategaeth Partneriaeth ar gyfer Twf ar y gweill ac fe'i cyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 5.13 Sectorau â Blaenoriaeth

Mae'r buddsoddi yn ein sectorau â blaenoriaeth wedi'i flaenoriaethu a'i gysoni er mwyn gallu targedu'r buddsoddi a chynlluniau meithrin gallu a fydd, gyda'i gilydd, yn creu amgylchedd busnes cynaliadwy. Mae hyn yn gysylltiedig â'r amcanion yr ydym wedi'u datgan ynglŷn â chefnogi twf swyddi ac economi Cymru'n gyffredinol.

Yn 2015-16, cefnogwyd dros 40,000 o swyddi ledled Cymru. Roedd hyn yn welliant eto ar y 38,000 y llwyddwyd i'w cefnogi yn y flwyddyn flaenorol. Defnyddir ystod eang o ddangosyddion i fesur y cyflawni gan y meysydd gweithredol a'r rheini'n cynnwys cyfuniad o weithgarwch a chanlyniadau. Maent wedi'u datblygu i gydymffurfio ag unrhyw reoliadau gan WEFO pan ddefnyddir cyllid Ewropeaidd ac i ddarparu dangosyddion lleol ar gyfer meysydd busnes unigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystadegau ar lefel sectorau sy'n cynnwys data am Werth Ychwanegol Crynswth (GCA), swyddi gweithwyr, enillion fesul awr yn ôl y ddau ryw, cyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster a rhywfaint o ystadegau ar lefel awdurdodau lleol:
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=cy

Mae manylion y cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer y sectorau â blaenoriaeth i'w gweld yn nhablau Llinell Wariant y Gyllideb yn **Atodiad B.**

Mae Busnes Cymru'n dal i gael llawer o ymholiadau (18,000) a'r rheini'n cael eu sbarduno gan y gwasanaeth diwygiedig sy'n cynnwys Cyflymu Twf a'r gwasanaeth cymorth busnes newydd arlein (BOSS). Ers mis Mai 2016, mae BOSS wedi cofrestru dros 8,000 o ddefnyddwyr newydd.

Hyd yn hyn eleni, rhoddwyd cyngor busnes i 3,638 o unigolion a busnesau ac yn sgil hyn, mae Busnes Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged ar gyfer swyddi newydd yn y flwyddyn hon.

Mae Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru ar y trywydd iawn i ddarparu rhagor o gymorth buddsoddi i fusnesau, tua £10m, a chynnydd gwerth rhyw £5m mewn allforion. Mae hyn yn elfen integredig o'r pecyn cymorth ehangach a gynigir i fentrau bach a chanolig ac i entrepreneuriaid ac mae'n cynnig y posibilrwydd o ddenu arian ychwanegol.

## 5.14 Gwariant Ataliol

Mae ein cyllideb yn canolbwyntio ar greu'r amgylchedd iawn ar gyfer twf economaidd a chefnogi creu a chadw swyddi. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall cyflogaeth gynnig gwarchodaeth gref i bobl rhag tlodi. Mae tlodi parhaus yn niweidiol i unigolion ac i gymunedau ac fe all arwain at niwed materol a seicolegol, yn ogystal ag at ganlyniadau cymdeithasol ehangach. Mae mynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu hachosi gan dlodi ac ymateb iddynt yn ddrud. Drwy gefnogi swyddi, a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl wrth iddynt geisio dod o hyd i waith, ein nod yw ei gwneud yn llai tebygol y bydd teuluoedd yn wynebu tlodi, yn enwedig tlodi dwys a pharhaus, gan osgoi'r costau tymor hir a ddaw i ran y gymdeithas yn sgil hyn.

Rydym wedi parhau i seilio'n penderfyniadau ar waith ataliol er mwyn atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu. Mae tystiolaeth ar gael mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r llwybr gorau i ddianc rhag tlodi ac mai dyna sy'n cynnig y warchodaeth orau rhag tlodi i'r rheini a all fod mewn perygl. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd drwy gynlluniau a buddsoddi wedi'u targedu ledled Cymru.

## 6.0 TRAFNIDIAETH - ARIANNU MEYSYDD RHAGLENNI GWARIANT

O'i gymharu â chyllideb Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18, mae'r dyraniad refeniw, £84.852m, wedi'i gynyddu (ac mae £80m o'r swm hwnnw'n gyllid nad yw'n arian parod).

Y dyraniad cyfalaf ar gyfer y cyfnod 2017-18 tan 2020/21 yw £1.173bn i gefnogi'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Pan fydd y ffigur hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r cyllid a ddynodwyd ar gyfer yr M4 a Metro De Cymru a gedwir yn y gronfa ganolog wrth gefn, mae hyn yn adlewyrchu lefel sylweddol o gyllid cyfalaf ar gyfer y Seilwaith Trafnidiaeth dros gyfnod y gyllideb cyfalaf sydd ar y ffordd. Serch hynny, bydd y cynlluniau y bwrir ymlaen â hwy'n parhau i adlewyrchu penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud er mwyn addasu'r gyllideb gyfalaf a fydd draean yn is mewn termau real erbyn diwedd y degawd nag yr oedd yn 2010-11. Mae'r dyraniad ychwanegol o £80m o'r gronfa wrth gefn nad yw'n arian parod yn cefnogi'r gofynion cyllidebol ar gyfer rhwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd.

| Trafnidiaeth | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 | Newid 2017-18 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|---|

| | £'000 | | £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 295,168 | 4,852 | 300,020 |
| Nid yn Arian Parod | 108,691 | 80,000 | 188,691 |
| **Cyfanswm** | **403,859** | **84,852** | **488,711** |

| Trafnidiaeth | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 278,666 | 336,486 | 226,877 | 254,867 | 346,428 | **1,164,658** |
| FTR | 0 | 5,000 | 2,200 | 1,200 | 0 | **8,400** |
| **Cyfanswm** | **278,666** | **341,486** | **229,077** | **256,067** | **346,428** | **1,173,058** |

## 6.1 Gweithrediadau Rhwydwaith y Traffyrdd a'r Cefnffyrdd

| Cam Gweithredu Gweithrediadau Rhwydwaith y Traffyrdd a'r Cefnffyrdd | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 51,789 | 0 | 51,789 |
| Nid Arian Parod | 108,691 | 80,000 | 188,691 |
| **CYFANSWM** | **160,480** | **80,000** | **240,480** |

| Cam Gweithredu Gweithrediadau Rhwydwaith y Traffyrdd a'r Cefnffyrdd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 80,600 | 79,493 | 69,166 | 69,500 | 79,613 | **297,772** |

Llywodraeth Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am Rwydwaith y Traffyrdd a'r Cefnffyrdd, un o asedau seilwaith pwysicaf Cymru.  Mae'r ased yn cefnogi cyflawni llawer o flaenoriaethau 'Symud Cymru Ymlaen' ac uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a hynny yn y rhan fwyaf o feysydd polisi, gan gynnwys, yr economi, iechyd ac addysg ac mae iddo gost adnewyddu dadbrisiedig sydd dros £15bn. Mae cyllid digonol ar gyfer cynnal y rhwydwaith felly'n hanfodol er mwyn cynnal ei gyflwr a'r lefelau gwasanaeth sy'n ofynnol fel y gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei dyletswyddau statudol o ran diogelwch a gwireddu ei hamcanion o ran polisi i Gymru.

Dros y cyfnod o bedair blynedd, bydd cyllidebau cynnal a chadw'n cael eu monitro'n barhaus i sicrhau ein bod yn ymateb i waith adweithiol ac yn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf yn y mannau lle mae ei angen fwyaf.

Mae'r cynlluniau buddsoddi'n cefnogi strategaeth gwario i arbed a fydd yn cynnig gwell gwerth am arian yn y tymor hir ac yn lliniaru'r pwysau refeniw ym mlynyddoedd y dyfodol

## 6.2 Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr

| Cam Gweithredu Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 185,679 | 2,152 | 187,831 |

Mae'r gyllideb yn cefnogi Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a'r Gwasanaeth Awyr o Fewn Cymru. Rhoddir manylion y cynnydd yn y gyllideb refeniw, sef £2.152m yn **Atodiad A.** Mae'n cynnwys:

- cynnydd o £2.948m ar gyfer gweithgareddau hedfanaeth ym Maes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Sain Tathan (wedi'i drosglwyddo o Sectorau a Busnes);
- gostyngiad o ryw £1.096m ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd (gweler rhagor o fanylion isod): a
- dyraniad ychwanegol o £0.3m ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, yn dilyn y cytundeb ynghylch y gyllideb.

Masnachfraint y rheilffyrdd yw prif elfen wariant y Cam Gweithredu hwn. Mae costau cytundeb y fasnachfraint wedi cynyddu'n flynyddol ac yn dal i gynyddu oherwydd y gwasanaethau ychwanegol ac oherwydd y cynnydd chwyddiannol yn y contractau yn sgil y Mynegai Prisiau Manwerthu a Chyflogau ar Gyfartaledd. Serch hynny, rhagwelir y bydd modd ymdopi â'r gostyngiad hwn ar gyfer 2017-18 drwy gyfrwng elfennau perfformiad y contract ac oherwydd y rhagwelir y bydd modd lliniaru'r cynnydd a broffwydir yn y costau am fod lefelau chwyddiant RPI yn ddiweddar yn is nag a ragwelwyd gynt. Bydd gofyn monitro hyn yn barhaus.

## 6.3 Buddsoddi yn y Ffyrdd, y Rheilffyrdd a Hedfanaeth

| Cam Gweithredu Cynlluniau Ffyrdd, Rheilffyrdd a Hedfanaeth | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 123,719 | 180,746 | 110,011 | 137,667 | 224,115 | **652,539** |
| FTR | 0 | 5,000 | 2,200 | 1,200 | 0 | **8,400** |
| **Cyfanswm** | **123,719** | **185,746** | **112,211** | **138,867** | **224,115** | **660,939** |

Mae'r gyllideb yn cyllido gwelliannau cyfalaf i'r ffyrdd, y rheilffyrdd a hedfanaeth. Mae dyraniad cyfalaf ychwanegol yn 2017-18 i gwblhau gwireddu'r blaenoriaethau seilwaith sydd wrthi'n cael eu hadeiladu megis gwella Adran 2 yr A465, Ffordd Osgoi'r Drenewydd, gwelliannau diogelwch yn Nhwneli Brynglas a Ffordd Gyswllt Bae'r Dwyrain.  Bydd y buddsoddi ar gyfer 2018-19 a'r tu hwnt yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yng nghyd-destun y gyllideb sydd ar gael. Mae'r cyllid ar gyfer ffordd liniaru'r M4 ac elfen o'r cyllid ar gyfer Metro De Cymru dros y cyfnod hwn yn cael eu cadw yn y gronfa wrth gefn ar hyn o bryd yn barod i'w dyrannu pan fydd y rhaglenni cyflawni'n cael eu cadarnhau ac yn dibynnu a ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer yr M4.

Ar gyfer y rheilffyrdd, bydd y gyllideb yn cyllido cyflawni Cam 2 Metro De Cymru, datblygu Metro Gogledd Cymru, cwblhau cynllun gwella amlder Glyn Ebwy, a chynllun cwtogi amser y daith o'r gogledd i'r de, yn ogystal â gwella gorsafoedd a datblygu arian cyfatebol posibl ar gyfer gorsaf drenau newydd a gwella gorsafoedd.

Mae cyllid FTR wedi'i ddarparu hefyd er mwyn cefnogi  buddsoddi yn y sector hedfanaeth yn y dyfodol.

## 6.4 Teithio Cynaliadwy

| Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 52,936 | 2,700 | 55,636 |

| Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 67,447 | 69,347 | 40,800 | 40,800 | 35,800 | **186,747** |

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi buddsoddi mewn trafnidiaeth integredig, teithio llesol, Teithio'n Rhatach ar Fysiau, cardiau clyfar a chynlluniau bysiau, trenau a ffyrdd lleol a gynigir gan awdurdodau lleol. Mae'r cynnydd refeniw o £2.7m yn berthnasol i ddyraniadau ychwanegol fel rhan o'r cytundeb ynghylch y gyllideb: y Gronfa Seilwaith Porthladdoedd £2m, yr astudiaeth ddichonoldeb i lwybr beicio gwerth £0.2m a llwybrau mwy diogel i'r ysgol gwerth £0.5m. Manylir ar y rhain yn **Atodiad A**.

Gan fod y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol yn cael ei gynnal mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer cronfa blaenoriaethau trafnidiaeth lleol wedi'i warchod yn 2016-17 ac yn 2017-18.

Mae'r amlen gyllido gyffredinol ar gyfer tocynnau rhatach wedi'i chadw tra bo trafodaethau ar y gweill â'r diwydiant ynghylch cyllido yn y cyfnod tair blynedd

nesaf. Bydd y pecyn cyllido terfynol yn adlewyrchu natur y cynllun sy'n cael ei dywys gan y galw, a rhwymedigaethau Awdurdodau Lleol yn unol â'r egwyddor 'dim gwell, dim gwaeth'.

## 6.5 Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

| Cam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,764 | 0 | 4,764 |

| Cam Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017- 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | Cyfans wm £'000 |
| Cyfalaf Traddodiadol | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 6,900 | **27,600** |

Mae'r gyllideb refeniw yn cefnogi trefniadau ymgysylltu a chyllido â phartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ostwng y nifer sy'n cael eu hanafu, gan ddefnyddio strwythurau llywodraethu diogelwch ar y ffyrdd i gefnogi gweithredu'r Cynllun Cyflawni Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno ein hymagwedd strategol at ddiogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020.

Mae'r gyllideb cyfalaf yn cefnogi gwelliannau cyfalaf peirianegol i wella diogelwch rhwydweithiau'r cefnffyrdd a'r ffyrdd lleol.

## 7.0 TRAFNIDIAETH - PRIF Bolisïau

Darperir rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r ceisiadau penodol gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

## 7.1 Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

Ar gyfer 2017-18, bydd y blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth yn cael eu gosod yng nghyd-destun y gyllideb sydd ar gael a'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2015. Mae hwn yn gosod y blaenoriaethau buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith ac mae'n canolbwyntio ar y prosiectau y gellid eu cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae datganiad am hyn ar gael yn:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/10383639/?lang=en

Mae gan drafnidiaeth ran hanfodol i'w chwarae'n gwella gallu Cymru i gystadlu'n economaidd a'r cyfle i fanteisio ar swyddi a gwasanaethau. Mae'r Cynllun yn dweud sut a pha bryd y gellid cyflawni'r gwelliannau i rwydweithiau'r ffyrdd a

thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn helpu busnesau i ffynnu a sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, cynaliadwy sy'n eu bodloni.

Mae modd deall sut mae'r system drafnidiaeth yn perfformio, asesu'r angen am ymyrryd ac ystyried effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ein cynlluniau ar gyfer y system drafnidiaeth, a hynny ar sail tystiolaeth gadarn. Mae'r cynlluniau yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn targedu pum maes sy'n flaenoriaeth: twf economaidd, trechu tlodi, teithio cynaliadwy a diogelwch, a gwella'r llwybrau at gyflogaeth a gwasanaethau gan ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant ehangach. Bydd y buddsoddiadau a nodwyd yn sicrhau system drafnidiaeth fwy integredig a chynaliadwy i bawb.

Bydd camau gweithredu'r Cynllun:

- Yn sicrhau bod gwell trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol ar gael, gan wella ansawdd y drafnidiaeth, ei diogelwch a'i gwneud yn fwy hygyrch.
- Yn help i liniaru unrhyw anfantais a wynebir gan grwpiau sy’n cael eu gwarchod a'r rheini sydd ar incwm isel drwy ddarparu trafnidiaeth a rhwydwaith cyhoeddus integredig o ansawdd (gan gynnwys darparu gwybodaeth ddwyieithog hwylus)
- Yn cynnal y cyllid ar gyfer gwasanaethau bysiau sy'n gymdeithasol angenrheidiol.

Mae set o setiau data cenedlaethol yn cynnig gwybodaeth gyson y gellir ei chymharu ar gyfer Cymru gyfan ac maent yn dangos yr ardaloedd lle nad yw'r system drafnidiaeth yn perfformio'n ddigon da. Bydd y setiau data'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac fe'u defnyddir i fonitro sut mae'r system yn perfformio, gan gynnig rhybuddion cynnar ynghylch materion sy'n codi a gwybodaeth am dueddiadau yn y tymor hwy. Mae'r data trafnidiaeth yn cael eu cyfuno â ffynonellau data eraill, megis data'r cyfrifiad a data am ddefnydd tir, i roi gwybodaeth am effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol y system drafnidiaeth. Mae'r data trafnidiaeth yn cael eu rhannu'n bum categori - amserau teithio, nifer y teithiau a wneir, data am ddiogelwch, gwybodaeth atodol a gwybodaeth gyd-destun,

Dogfen fyw yw'r Cynllun ac fe'i diweddarir i adlewyrchu cynlluniau cyfalaf y Llywodraeth ar gyfer y dyfodol.

### 7.2 Trafnidiaeth i Gymru

Mae'r cwmni bellach wedi'i sefydlu a'r costau cychwyn yn dod o'r cyllidebau blaenorol.  Bydd y cyllid ar gyfer 2017-18 a blynyddoedd y dyfodol (refeniw a chyfalaf) yn cael eu pennu pan dderbynnir Cynllun Busnes 2017-18 y cwmni.

Cwmni 'hyd braich' cyfyngedig drwy warant yw Trafnidiaeth i Gymru.  Ei brif nod yw cynghori Llywodraeth Cymru am faterion sy'n berthnasol i Drafnidiaeth ac, yn benodol, i fwrw ymlaen â chyflawni Masnachfraint Newydd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru.

Goruchwylir y cwmni gan Fwrdd Cyfarwyddwyr sy'n cynnwys Uwch Weision Sifil ac mae'n cael ei gadeirio gan Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol. Ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd wyth o gyfarwyddwyr (gan gynnwys y cadeirydd). Mae'r rhain yn cynnwys pum cyfarwyddwr anweithredol, sy'n golygu bod modd manteisio ar brofiad ac arbenigedd ehangach mewn meysydd megis Adnoddau Dynol, cyllid, darparu a llywodraethu seilwaith, a thri chyfarwyddwr gweithredol sydd ag arbenigedd penodol ym maes eu cyfrifoldeb.

Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r cwmni'n cael ei llywodraethu gan lythyr dirprwyaeth a anfonir oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol; cytundeb rheoli rhwng Llywodraeth Cymru a'r cwmni'n dweud beth yw pwrpas y cwmni, ei atebolrwydd a'i gyfrifoldebau; llythyr cylch gwaith; a chynllun busnes blynyddol sy'n dweud sut y bydd y cwmni'n cyflawni'r amcanion a'r canlyniadau a restrir yn y llythyr cylch gwaith.

Mae'r trefniadau llywodraethu'n adlewyrchu'r awydd i sicrhau atebolrwydd a chyfrifoldeb uniongyrchol ar lefel uwch (y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol) am gaffael y gweithredwr a'r partner datblygu ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru. Gwerth hyn o ran cyfalaf fydd £734m a'i werth refeniw fydd oddeutu £3.5bn. Felly dyma un o'r prosiectau caffael mwyaf sylweddol a wneir gan Lywodraeth Cymru.

## 7.3 Ffordd Liniaru'r M4 a Gwelliannau Mawr i'r Ffyrdd

Mae datblygu'r M4 o amgylch Casnewydd o bwys strategol i lewyrch economi Cymru ac mae busnesau Cymru'n gefnogol iawn iddo. Bydd y prosiect sydd wedi bod yn destun ymgynghori helaeth, yn ei gwneud yn haws i bobl, nwyddau a gwasanaethau Cymru gyrraedd marchnadoedd rhyngwladol drwy fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth ar un o'r prif byrth i Gymru. Yn ystod 2016 mae gwaith wedi 'i gwblhau i asesu'r dull adeiladu gorau, i weld pa dir y byddai ei angen a pha gamau i amddiffyn yr amgylchedd, gan arwain at gyhoeddi Gorchmynion drafft. Bydd y cynigion bellach yn destun craffu mewn Ymchwiliad Cyhoeddus a fydd yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun wedi'i ddynodi ac, ar hyn o bryd, fe'i cedwir yn y gronfa ganolog yn amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus.

Mae'r gwaith yn parhau i uwchraddio Ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465, a'r gwaith mawr sydd ar y gweill rhwng Gilwern a Brynmawr. Pan fydd hwn wedi'i orffen, bydd yn darparu cerbydlon ddeuol o safon uchel i gysylltu ag Ardal Fenter Glyn Ebwy drwodd i Ganolbarth Lloegr.

Mae gwaith mawr arall ar y gweill hefyd ar hyn o bryd, gan gynnwys Ffordd Gyswllt Bae'r Dwyrain i wella'r cysylltiadau ag Ardal Fenter Capitol Caerdydd, Ffordd Osgoi'r A483 yn y Drenewydd i wella seilwaith economaidd y Canolbarth ac adnewyddu mawr ar dwneli Brynglas ar yr M4 yng Nghasnewydd i wella cydnerthedd y coridor trafnidiaeth pwysig hwn sy'n gwasanaethu economi De Cymru yn ei chyfanrwydd.

## 7.4 Rhwydwaith y Cefnffyrdd a'r Traffyrdd

Ar ôl yr archwiliad annibynnol ddiwedd 2013/2014 ac adolygiad 2015 o dryloywder ac amlygrwydd y costau, mae asiantaethau'r cefnffyrdd (TRA) wedi parhau i wneud camau breision tuag at gytuno i sicrhau arbedion wrth gyflawni dyletswyddau statudol. Nodwyd £6m yn 2016-17 ac mae targed o £8m wedi'i bennu ar gyfer 2017-18.

Mae'r arbedion yn canolbwyntio'n gyffredinol ar dri maes Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cefnffyrdd, yr atodlen cyfraddau a chostau rheoli ac fe'u cyflawnir drwy ddilyn arferion gweithio mwy effeithlon ac arloesol a defnyddio technoleg newydd. Bydd yn hanfodol ail-fuddsoddi'r arbedion hyn yn y rhwydwaith er mwyn eu gosod yn erbyn gwariant yn y dyfodol, a bydd hyn yn sail i egwyddorion dull buddsoddi i arbed, rhagweithiol.

Mae cytundebau lefel gwasanaeth Cymru Gyfan wedi'u rhoi ar waith ers mis Ebrill 2016 i'w defnyddio gan y TRA wrth gaffael gwasanaethau eu cyflenwyr. Bydd y cytundebau cyflawni gwasanaeth unffurf hyn bellach yn golygu bod modd cymharu costau ar sail debyg i'w tebyg ar draws rhanbarthau a sefydliadau cyflawni.

Ochr yn ochr â hyn, argymhellwyd cyfres o gamau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Awst 2015 a oedd yn canolbwyntio ar wella gwerth am arian wrth reoli a chynnal a chadw rhwydwaith y traffyrdd a'r cefnffyrdd.

Mae System Wybodaeth Integredig Llywodraeth Cymru am y Ffyrdd yn gyflawn yn ei hanfod ac mae'n cael ei defnyddio i reoli cyflwr asedau sydd ar gael eisoes ac i storio data ar gyfer prosiectau priffyrdd newydd. Lansiwyd y Dull Cenedlaethol o ymdrin â gwaith Ffyrdd a Strydoedd yng Nghymru ym mis Mehefin 2016. Drwy gydweithio ag ymgymerwyr statudol ac awdurdodau'r priffyrdd, gall hyn wella sut y mae gwaith ffyrdd a strydoedd yn cael eu rheoli er budd Cymru o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.

### 7.5 Teithio Llesol

Mae Llywodraeth Cymru'n gweld teithio llesol yn elfen bwysig o ddatblygu ein strategaethau trawsbynciol 'Iach ac Egnïol' ac 'Unedig a Chysylltiedig'. Mae gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol uwch gyfrifoldeb dros Deithio Llesol, ond, fel yr adlewyrchir yn y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni, mae gan lawer o bortffolios ran yn gwireddu ein huchelgais i sicrhau bod mwy o bobl yn cerdded ac yn beicio wrth deithio bob dydd. Mae pob portffolio allweddol wedi'i gynrychioli ar y Bwrdd Teithio Llesol.

Cefnogir Teithio Llesol drwy gyfrwng nifer o linellau cyfalaf a refeniw yn y gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o'r arian refeniw bellach wedi'i drosglwyddo i goffrau Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd buddsoddi yn seilwaith llwybrau teithio llesol lleol a'r gwelliannau'n digwydd yn bennaf drwy gyfrwng y Gronfa Drafnidiaeth Leol, y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r Grant Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae nifer penodol a maint y cynlluniau teithio llesol yn amrywio bob blwyddyn yn ôl y math o geisiadau a gyflwynir gan awdurdodau lleol, pa mor gryf yw'r ceisiadau hynny a'u maint. Gan amlaf, dyfernir rhwng £11-15m bob blwyddyn i gynlluniau sydd o fudd i deithio llesol. Mae'r cyllid ar gyfer Teithio Cynaliadwy Cerdded a Beicio wedi'i warchod dros y

cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021. Mae'r cyllid ar gyfer y gronfa blaenoriaethau trafnidiaeth lleol wedi'i warchod yn 2016-17 ac yn 2017-18.

Byddwn hefyd yn cyllido'n uniongyrchol welliannau teithio llesol sy'n gysylltiedig â chefnffyrdd sy'n bodoli eisoes, neu sy'n rhan o gynlluniau mawr newydd. Darperir cyllideb o £1.65m y flwyddyn ar gyfer y cyntaf, a bydd yr ail yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan ei fod yn gysylltiedig â lefel gyffredinol y cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau mawr a natur y cynlluniau a gyflawnir**.** Mae prif ffrydio gwireddu amcanion teithio llesol yn ystyriaeth bwysig wrth gyflawni pob cynllun trafnidiaeth.

## Buddsoddi yng Ngwasanaethau a Seilwaith y Rheilffyrdd (gan gynnwys y Metro)

Mae cyllido'r fasnachfraint bresennol, gan gynnwys gwasanaethau ychwanegol, yn dal yn un o brif feysydd cyllido a gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Rhai o'r cynlluniau diweddar oedd cyllido gwasanaethau ychwanegol ar reilffordd y Cambrian a rheilffordd Calon Cymru ar sail arbrawf tair blynedd ers mis Mai 2015 a chymorth i ostwng y cap ar y cynnydd a ganiateir ar brisiau docynnau trên a reoleiddir.

Mae'r gyllideb yn cefnogi parhau â'r gwaith ar Fetro De Cymru er mwyn gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol yn y de.  Rhai o'r meysydd sy'n flaenoriaeth i'r rhaglen yw caffael gweithredwr a phartner datblygu, darparu gwasanaethau ‘cyrraedd a mynd’ ar lwybr Treherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, y Rhymni, Coryton a'r Bae, ynghyd â stoc gerbydau newydd, a gwelliannau i'r rheilffordd ar lwybr Maesteg, Bro Morgannwg a Glyn Ebwy.

Bydd buddsoddi ym Metro Gogledd Cymru'n creu rhwydwaith trafnidiaeth integredig o ansawdd sy'n ddibynadwy ac yn effeithlon i gysylltu pobl, cymunedau a busnesau â swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau, gan sicrhau bod modd manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd cysylltedd drwy Gymru a thros ein ffiniau. Bydd y prosiect yn moderneiddio trafnidiaeth ledled y gogledd gan ganolbwyntio ar ddatblygu metro yn ardaloedd mwy trefol y gogledd-ddwyrain.

## a) Cymorth i Wasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol

Mae bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn dal yn ystyriaeth o bwys i'r gyllideb gan fod y sectorau hyn yn sicrhau cysylltedd i'r cyhoedd sy'n dibynnu'n fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus. Cafwyd cyhoeddiad am gamau gweithredu pum pwynt i'r diwydiant bysiau ar 15 Medi 2016 i gefnogi'r sector hwn ac mae ar gael yma:

http://gov.wales/newsroom/transport/2016/160915-economy-secretary-outlines-plan-to-support-bus-industry/?lang=cy

Er gwaetha'r setliadau heriol iawn yn y gyllideb, er 2013-14 llwyddwyd i gynnal y £25m a ddyrennir bob blwyddyn i awdurdodau lleol drwy gyfrwng ein Grant Cymorth i Wasanaethau Bysiau. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18 yn cynnwys dyraniad o £25m.

Cyflwynwyd hefyd well gwasanaeth ar deithiau hir TrawsCymru er enghraifft yn y gogledd ar lwybr y T3 o'r Bermo i Wrecsam, y T2 o Fangor i Aberystwyth a'r T5 o Aberystwyth o Aberteifi i Hwlffordd.  Mae'r llwybrau hyn hefyd wedi elwa o docynnau mwy fforddiadwy gyda'r nod o annog pobl ifanc i ddefnyddio'r gwasanaethau megis Tocyn Bwmerrang sy'n cynnig teithio rhatach ar benwythnos.

Llwyddwyd i sicrhau cytundeb i gyllido dwy swydd amser llawn yn awdurdodau lleol y METRO yn y gogledd a'r de i arwain, cydlynu a chyflawni elfennau'r bysiau o fewn y pum mlynedd nesaf, o fewn amlen QPS bysiau statudol.  At hynny, byddai'n cael ei ddefnyddio'n sail i fuddsoddi yn y dyfodol yn y rhwydwaith bysiau y tu allan i ardaloedd y METRO.

Rydym yn parhau i gefnogi'n ariannol waith Defnyddwyr Bysiau Cymru a'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod safbwyntiau teithwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol wrth ddatblygu ein polisïau ar gyfer rhwydwaith y bysiau, a bydd trafnidiaeth gymunedol yn parhau i wneud cyfraniad o bwys at rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig, yn enwedig i gymunedau cymharol ddiarffordd a gwledig.

Yn ystod 2016-17, dechreuwyd darparu cymorth ariannol ar gyfer Comisiynydd Traffig amser llawn i Gymru, a fydd yn neilltuo rhagor o amser i gynghori ac addysgu'r diwydiant bysiau, bysiau moethus, tacsis a chludo nwyddau er eu budd hwy, er budd teithwyr ac er budd yr economi a'r amgylchedd ehangach.

### b) Cynllun Teithio'n Rhatach ar Fysiau a fyngherdynteithio

O dan y gyfraith, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ad-dalu gweithredwyr bysiau am gludo pobl hŷn neu anabl sydd â thocyn teithio am ddim ar fysiau o dan y cynllun. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau hefyd i sicrhau nad yw'r gweithredwyr bysiau hynny'n 'ddim gwaeth nac yn ddim gwell' eu byd yn sgil hyn. Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru i gefnogi gwariant awdurdodau lleol ar ad-daliadau'n parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau, gan ategu'r cyfraniadau y bydd awdurdodau lleol yn dal i'w gwneud o'u cyllidebau eu hunain, a chan adlewyrchu'r cyllido hanesyddol a ddarparwyd ganddynt cyn cyflwyno'r cynllun yn 2002. Gyda'i gilydd, bydd y cyfraniadau hyn gan awdurdodau lleol yn rhyw £10.3m bob blwyddyn.

At hynny, byddwn yn talu costau gweinyddu Awdurdodau Lleol drwy dalu £3 am bob cerdyn byw sydd mewn cylchrediad, bob blwyddyn.

Cyflwynwyd cynllun peilot Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc am 18 mis ym mis Medi 2015. Mae'r cynllun presennol yn dal i gael ei werthuso i weld beth yw ei effaith er mwyn penderfynu ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol.  Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant bysiau i benderfynu a oes potensial i barhau â'r cynllun hwn ar sail fasnachol, o bosibl gyda chyfraniad is o lawer gan Lywodraeth Cymru, ar ôl dyfarnu'r cyllid ysgogi cychwynnol ar gyfer y cynllun.

### c) Cymorth ar gyfer Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol

Mae naw Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar waith yng Nghymru. Cymeradwywyd y rhain gan y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar 20

Mai 2015. Datblygwyd y cynlluniau gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r Canllawiau ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol. Mae'r canllawiau hefyd yn dweud ar ba sail y dylid monitro a gwerthuso'r cynlluniau.

Mae llinell y gyllideb ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol sy'n cefnogi'r economi, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn galluogi teithio llesol. Rydym yn dal i gydweithio ag awdurdodau lleol a chyrff allweddol eraill i sicrhau bod y prif flaenoriaethau'n cael eu gwireddu.

### 7.6 Gwariant Ataliol

O ran sicrhau gwell canlyniadau mae camau gwariant ataliol yn bwysig ar gyfer y tymor hir. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ar Drafnidiaeth ar gyfer rhaglenni a pholisïau'n rhai y gellir eu priodoli i wariant ataliol megis: teithio llesol o ran hyrwyddo moddau teithio cynaliadwy sydd felly'n lliniaru'r effeithiau ar yr amgylchedd ac yn cynyddu lefelau gweithgarwch sy'n cefnogi canlyniadau iechyd, teithio'n rhatach ar fysiau, gwaith cynnal a chadw parhaus ar y ffyrdd a rheoli'r rhwydwaith i wella diogelwch ar y ffyrdd ac osgoi problemau a damweiniau mwy difrifol dros y tymor hwy.

## 8.0 MONITRO CYLLIDEBAU

Mae adolygiad dwfn a manwl o'r gyllideb ddrafft wedi'i gwblhau. Wrth iddynt gyflawni eu gwaith, bydd pob maes busnes yn cael ei herio’n fisol a bydd adolygiadau chwarterol manwl yn cael eu cwblhau gan swyddogion i ystyried y rhagolygon diweddaraf ac i gytuno ar symudiadau sydd eu hangen yn y gyllideb.

## 9.0 GWERTHUSIADAU/ADOLYGIADAU

Bydd y canlyniadau'n cael eu monitro ar gyfer pob prosiect a chontract sy'n cael ei reoli yn y portffolio. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb cyn dechrau ar brosiectau allweddol i asesu pa mor addas yw bwrw ymlaen â hwy o ran gwireddu ein nodau llesiant.

Bydd prosiectau a rhaglenni'n cael eu gwerthuso yn ystod y prosiectau a phan fydd y prosiectau'n dod i ben, ac fe ellir gwneud hyn yn fewnol neu gan gontractwyr allanol.

Cynhelir adolygiadau Gateway ar brosiectau mawr i asesu gwerth am arian. Mae archwiliadau mewnol ac allanol wedi cael eu cynnal a byddant yn cael eu cynnal yn y dyfodol hefyd. Bydd y rhain yn cynnig rhagor o dystiolaeth i gefnogi canlyniadau polisi.

Mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (PPIW) yn cael ei gydgyllido gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru a'i nod yw cynnig dadansoddiadau a chyngor annibynnol awdurdodol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Sefydliad wedi cyhoeddi sawl adroddiad am bortffolio'r economi a'r seilwaith gan gynnwys adroddiad diweddar am y dystiolaeth sydd ar gael a'r

dystiolaeth sydd ei hangen ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio o ran gwella perfformiad economi Cymru.

http://ppiw.org.uk/files/2016/10/PPIW-Summary-of-Expert-Workshop-Improving-the-Economic-Performance-of-Wales.pdf

Comisiynu gwerthusiadau ac ymchwil yw un ffordd o gasglu tystiolaeth am bolisïau a rhaglenni, ond nid dyma'r unig ffordd ac nid dyma'r ffordd fwyaf priodol bob tro.

Mae'r portffolio'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau o gasglu tystiolaeth ac o werthuso polisïau a rhaglenni. Mae rhai o'r rhain yn llywio'r broses drwy gynnig cyngor a dysgu gwersi gan arbenigwyr.

Weithiau, defnyddir y sail dystiolaeth sydd ar gael eisoes i lunio rhaglenni a pholisïau ac nid oes bob tro angen cynhyrchu tystiolaeth newydd. Nid yw gwneud hynny bob tro'n cynnig gwerth am arian ychwaith. Er enghraifft, mae Canolfan 'Yr Hyn sy'n Gweithio ar gyfer Twf Lleol' wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n dadansoddi pa bolisïau sydd fwyaf effeithiol o ran cefnogi a chryfhau twf economaidd lleol.

http://www.whatworksgrowth.org/

Yn yr un modd mae'r OECD wedi cynnal arolwg o ymagweddau polisi datblygu economaidd a chyflogaeth lleol yng ngwledydd yr OECD ac wedi ystyried sut y gellid rhoi'r rhain ar waith yng Nghymru.

http://www.oecd-ilibrary.org/industry-and-services/a-review-of-local-economic-and-employment-development-policy-approaches-in-oecd-countries-policy-transferability-to-wales_5km7rq3vv2hg-en

Gellir ystyried a oes angen gwerthuso a beth fyddai cwmpas gwaith o'r fath fesul achos wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni gan roi sylw i'r risg, ac i faint a graddfa'r gwaith, i'r sail dystiolaeth sydd ar gael eisoes ac i ffactorau eraill.

## 10.0 DYRANIADAU AC YSTYRIED BOD Y DEYRNAS UNEDIG WEDI PLEIDLEISIO I YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD

O ran y goblygiadau ariannol i'r portffolio yn sgil y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae gwaith mawr ar y gweill drwy Lywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn dylanwadu gymaint ag y bo modd yn ein trafodaethau o fewn y Deyrnas Unedig ac yna mewn negodiadau ffurfiol â'r Undeb Ewropeaidd a thrwy hynny ein bod yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru. Mae gwarant gan Drysorlys y Du ar gyfer cyllid ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni eraill yr UE yn mynd gam o'r ffordd tuag at gyllido'r galwadau ond byddwn yn parhau i bwyso i sichrau nad yw Cymru yn colli ceiniog o gyllid presennol yr UE a chyllid a ragwelwyd ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd yn bendant ein barn bod yn rhaid i bwerau a chyfrifoldeb a drosglwyddir o'r UE i Gymru ddod law yn llaw â lefel briodol o gyllid i'n galluogi i gyflawni.

Mae'r Cynllun i Godi Hyder Byd Busnes yn dweud sut yr ydym yn canolbwyntio'n hymdrechion ar warchod swyddi a'r economi yn y tymor hwy,

drwy ddyrannu cyllid ar gyfer gweithgareddau penodol megis y Gronfa Twf a Ffyniant, y Banc Datblygu a Chronfa Fusnes newydd Cymru yng Nghyllid Cymru, gan gyfleu'r neges ein bod o blaid busnes, a thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau ynglŷn â'u blaenoriaethau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr erthygl newyddion ddiweddar: http://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2016/160921-136m-fund-and-development-bank-will-help-support-businesses-in-wales-post-eu-referendum-says-economy-secretary/?lang=cy

Mae ymgyrchoedd rhagweithiol hefyd yn helpu busnesau a thwristiaeth drwy hybu brand Cymru ac rydym yn dyblu ein hymdrechion i gynyddu nifer a maint yr allforwyr o Gymru sy'n allforio drwy gyflwyno cynllun rhagweithiol i gynnig cymorth ar gyfer allforio. Mae £0.5m ychwanegol wedi'i fuddsoddi ym maes marchnata busnesau i hyrwyddo Cymru a chefnogi gweithgarwch mewnfuddsoddi.

## 11.0 DEDDFWRIAETH

### 11.1 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Ystyrir hyn yn adran 7.5.

### 11.2 Bil Cymru - Drafft

Bydd Bil Cymru'n ehangu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol mewn sawl maes trafnidiaeth. Bydd hefyd yn ehangu swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru ym maes trafnidiaeth, yn enwedig o ran porthladdoedd a thraffig y ffyrdd.
Ni ragwelir y daw Bil Cymru i rym tan fis Ebrill 2018 ac ni fydd dim goblygiadau ariannol ar gyfer cyllideb 2017-18, ac eithrio adnoddau'r staff y bydd eu hangen i baratoi ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau newydd.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n ceisio cymhwysedd deddfwriaethol dros ddarlledu ar radio a theledu ar hyn o bryd. Serch hynny, mae gan Lywodraeth Cymru rolau a buddiannau gyda golwg ar y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ac Ofcom, gan gynnwys rôl ffurfiol, ymgynghorol yn yr adolygiad sydd ar y gweill ar hyn o bryd o Siarter Frenhinol y BBC.

### 11.3 Deddf Menter 2016 - deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Nid ydym yn rhagweld y caiff y ddarpariaeth yn Neddf Menter 2016, sy'n rhoi Gwasanaeth y Comisiynydd Busnesau Bach ar waith, effaith ar ein cyllideb. Cynllun gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwyddi draw yw hwn, a bydd y gwasanaeth yn cael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi gwybodaeth am gyllid i sefydlu a chynnal y gwasanaeth hwn a deallwn mai cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig fydd hyn ac felly nad oes angen darparu ar ei gyfer yng nghyllideb ddrafft Cymru.

### 11.4 Bil Marchnadoedd Gwell - Deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Rydym yn disgwyl i'r Bil hwn gael ei gyflwyno gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac nid ydym yn rhagweld y bydd angen i gyllideb Cymru ddarparu ar gyfer hyn.

### 11.5 Bil Gwasanaethau Bysiau - Deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Bydd Bil Gwasanaethau Bysiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn berthnasol yn Lloegr yn unig yn bennaf a bydd y ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd gyda golwg ar wasanaethau bysiau yng Nghymru'n parhau fel y mae yn awr. Ar ôl i'r Arglwyddi a Grŵp Cynghori Teithwyr Anabl gyflwyno sylwadau, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno gwelliant i'r Bil Gwasanaethau Bysiau (5 Hydref 2016). Effaith y gwelliant fydd diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gyflwyno gofyniad i weithredwyr bysiau ddarparu gwybodaeth hygyrch i deithwyr anabl yn ystod eu taith, gan gynnwys systemau cyhoeddi clyweledol i roi gwybodaeth iddynt am y stop nesaf. Mae'r ddarpariaeth yn diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n dweud y bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wneud y Rheoliadau a chyhoeddi'r canllawiau sy'n gefn iddynt drwy ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Bydd y darpariaethau perthnasol yn y Bil Gwasanaethau Bysiau sy'n cael eu pasio drwy Ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig a fydd yn berthnasol yng Nghymru'n niwtral o ran cost i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, er y gallai'r Rheoliadau sy'n dilyn ychwanegu rhyw 0.4% at gost gweithredu gwasanaethau bysiau yng Nghymru (os bydd cyhoeddiadau clyweledol yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau).

**ATODIAD A**

## Cysoni Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 â Chyllideb Ddrafft 2017-18

| | | 2017-18 | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Yr Economi £'000** | **Trafnidiaeth £'000** | **Cyfanswm Adnoddau £'000** |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17** | | **49,556** | **304,939** | **354,495** |
| **Newidiadau i'r Portffolio** | | | | |
| Sectorau | Trosglwyddo Polisi Ynni i'r Amgylchedd a Materion Gwledig. | (294) | | (294) |
| Teithio Cynaliadwy | Trosglwyddo i Lywodraeth Leol ar gyfer Cynllun y Bathodyn Glas | | (21) | (21) |
| **Dyraniadau nad ydynt yn Ailadroddus** | | | | |
| Sectorau | Ardal Fenter Port Talbot - Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes | (1,500) | | (1,500) |
| Tocynnau Rhatach i Bobl Ifanc | Daw'r cynllun peilot i ben ym mis Mawrth 2017 | | (9,750) | (9,750) |
| **Cyfanswm Addasiadau Sylfaenol** | | **(1,794)** | **(9,771)** | **(11,565)** |
| | | | | |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | | **47,762** | **295,168** | **342,930** |
| **Arbedion Refeniw ar gyfer 2017-18** | | | | |
| Sectorau | Arbedion a ragwelir ar ôl adolygu rhaglenni. | (100) | | (100) |
| Rhaglenni Corfforaethol | Gostwng y gofynion llog ar gyfer ad-dalu Dyledion y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac Adolygiadau Corfforaethol. | (134) | | (134) |
| Cyllid Cymru | Gostyngiad mewn cyllid craidd yn sgil arbedion effeithlonrwydd. | (420) | | (420) |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Arbedion a ragwelir yn sgil elfennau perfformiad contract masnachfraint y rheilffyrdd a lefelau is o chwyddiant RPI. | | (1,096) | (1,096) |
| **Cyfanswm Arbedion Refeniw** | | **(654)** | **(1,096)** | **(1,750)** |
| **Dyraniadau Ychwanegol ar gyfer 2017-18** | | | | |
| Sectorau | Croeso Cymru | 5,000 | | 5,000 |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth | | 300 | 300 |
| Teithio Cynaliadwy | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer lôn feicio genedlaethol | | 200 | 200 |
| | Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer seilwaith y porthladdoedd | | 2,000 | 2,000 |
| | Llwybrau diogel i gymunedau | | 500 | 500 |
| **Cyfanswm Dyraniadau Ychwanegol** | | **5,000** | **3,000** | **8,000** |
| **Ailgysoni'r Gyllideb ar gyfer 2017-18** | | | | |
| Sectorau | Trosglwyddo'r ddarpariaeth hedfanaeth ar gyfer gweithgarwch Sain Tathan. | (2,948) | | (2,948) |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | | | 2,948 | 2,948 |
| SIF - Gwaddol | Cyfuno'r Cam Gweithredu o fewn y Sectorau | (1,560) | | (1,560) |
| Sectorau | | 1,560 | | 1,560 |
| Rhaglenni Corfforaethol | Llinellau'r Camau Gweithredu - wedi'u cyfuno â Rhaglenni Strategaeth | 551 | | 551 |
| Rhaglenni Strategaeth | | (551) | | (551) |
| **Cyfanswm** | | **(2,948)** | **2,948** | **0** |
| **Cyfanswm y Symudiad ar gyfer 2017-18** | | **1,398** | **4,852** | **6,250** |
| **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** | | **49,160** | **300,020** | **341,180** |

Atodiad B

# YR ECONOMI, GWYDDONIAETH A THRAFNIDIAETH

## Dyraniadau'r Gyllideb 2017-18

| REFENIW | | | | 2017-18 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **Cyllideb Ddrafft £'000** |
| Sectorau a Busnes | Sectorau | 4029 | Y Gronfa Fuddsoddi Sengl | 1,560 | 1,560 |
| | | 3765 | TGCh | 6,446 | 5,946 |
| | | 3763 | Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol | 145 | 145 |
| | | 3762 | Diwydiannau Creadigol | 851 | 851 |
| | | 3761 | Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch | 4,018 | 1,070 |
| | | 3760 | Ynni a'r Amgylchedd | 1,106 | 1,106 |
| | | 6250 | Twristiaeth a Marchnata | 10,262 | 15,762 |
| | | 3752 | Adeiladu | 514 | 514 |
| | | 3753 | Datblygu Piblinellau | 1,326 | 1,226 |
| | | 3754 | Masnach a Mewnfuddsoddi | 1,892 | 1,892 |
| | | 3755 | Ardaloedd Menter | 927 | 927 |
| | | 3756 | Ardaloedd Menter - Ardrethi Busnes | 0 | 0 |
| | | 4051 | Datblygu a Chyflawni Rhanbarthol | 263 | 263 |
| | | | | **29,310** | **31,262** |
| | Entrepreneuriaeth | 3893 | Entrepreneuriaeth Pobl Ifanc | 1,319 | 1,319 |
| | | 3894 | Menter Gymdeithasol a'r Economi | 814 | 814 |
| | | 3895 | Gwasanaeth Busnesau Newydd | 1,480 | 1,480 |
| | | 3901 | Gwybodaeth Busnes | 618 | 618 |
| | | | | **4,231** | **4,231** |
| | | | | **33,541** | **35,493** |

| CYFALAF | | | | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Cyllideb Atodol Gyntaf £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | | | | |
| Sectorau a Busnes[1] | Sectorau | 4029 | Y Gronfa Fuddsoddi Sengl | 4,450 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | 3765 | TGCh | 1,865 | 165 | 1,000 | 2,000 | 1,000 | **4,165** |
| | | 3763 | Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol | 9,339 | 7,752 | 3,012 | 2,174 | 1,000 | **13,938** |
| | | 3762 | Diwydiannau Creadigol | 7,098 | 2,949 | 1,070 | 5,000 | 2,500 | **11,519** |
| | | 3761 | Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch | 8,495 | 10,409 | 4,496 | 10,683 | 3,000 | **28,588** |
| | | 3760 | Ynni a'r Amgylchedd | 3,571 | 11,000 | 6,295 | 5,345 | 1,500 | **24,140** |
| | | 3752 | Adeiladu | 1,897 | 195 | 151 | 278 | 150 | **774** |
| | | 3753 | Datblygu Piblinellau | 19,835 | 23,387 | 24,290 | 14,593 | 14,911 | **77,181** |
| | | 3755 | Ardaloedd Menter | 3,122 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| | | 6250 | Twristiaeth a Marchnata | 2,000 | 4,000 | 4,000 | 4,000 | 1,000 | **13,000** |
| | | | **Cyfanswm Cyfalaf Traddodiadol** | **61,672** | **59,857** | **44,314** | **44,073** | **25,061** | **173,305** |
| **FTR** | | | | | | | | | |
| | | 3753 | Datblygu Piblinellau | | 8,000 | 1,500 | 7,400 | 0 | **16,900** |
| | | 3761 | Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch | 7,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| | | 3758 | Cronfeydd Ariannu Busnesau (Cyllid Cymru) | 18,000 | 17,750 | 7,000 | 18,000 | 3,000 | **45,750** |
| | | | **Cyfanswm FTR** | **25,000** | **25,750** | **8,500** | **25,400** | **3,000** | **62,650** |
| **Cyfanswm Dyraniadau Cyfalaf** | | | | **86,672** | **85,607** | **52,814** | **69,473** | **28,061** | **235,955** |

[1] Nid yw'n cynnwys Gwyddorau Bywyd, Gwyddoniaeth ac Arloesi - portffolio'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

| **REFENIW** | | | | **2017-18** | **2017-18** |
|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** |
| Seilwaith[1] | Seilwaith Eiddo | 4052<br>4052 | Tir ac Adeiladau - Gwariant<br>Tir ac Adeiladau - Derbyniadau | 24,090<br>(20,064) | 24,090<br>(20,064) |
| **Cyfanswm y Grŵp** | | | | **4,026** | **4,026** |

Tudalen y pecyn 49

| **CYFALAF** | | | | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Cyllideb Atodol Gyntaf £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | | | | |
| Seilwaith[1] | Seilwaith Eiddo | 4052<br>4052 | Tir ac Adeiladau - Gwariant<br>Tir ac Adeiladau - Derbyniadau | 8,597<br>(24,412) | 16,041<br>(10,000) | 10,905<br>(7,500) | 10,077<br>(7,500) | 10,886<br>(7,500) | **47,909**<br>**(32,500)** |
| | | **Cyfanswm Cyfalaf Traddodiadol** | | **(15,815)** | **6,041** | **3,405** | **2,577** | **3,386** | **15,409** |
| **FTR** | | | | | | | | | |
| Seilwaith[1] | Seilwaith Eiddo | 4052 | Tir ac Adeiladau - Gwariant<br>**Cyfanswm FTR** | | 17,855 | 7,220 | 6,100 | 5,000 | **36,175** |
| | | | | **0** | **17,855** | **7,220** | **6,100** | **5,000** | **36,175** |
| **Cyfanswm Dyraniadau Cyfalaf** | | | | **(15,815)** | **23,896** | **10,625** | **8,677** | **8,386** | **51,584** |

[1] Nid yw'n cynnwys Seilwaith TGCh - portffolio'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth.

| REFENIW | | | | 2017-18 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** |
| Digwyddiadau Mawr | Digwyddiadau Mawr | 4231 | Marchnata a Digwyddiadau Mawr | 3,918 | 3,918 |
| | **Cyfanswm SPA** | | | **3,918** | **3,918** |

| REFENIW | | | | 2017-18 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** |
| Rhaglenni Corfforaethol | Rhaglenni Corfforaethol | 3899 | Her Iechyd Cymru | 800 | 800 |
| | | 4028 | Y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol | 1,655 | 1,641 |
| | | 4023 | Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 1,111 | 992 |
| | | 3891 | Dadansoddi Economaidd | 158 | 157 |
| | | 3897 | Ymgysylltu Strategol | 293 | 293 |
| | | 4230 | Marchnata Cyfathrebu | 100 | 100 |
| | | | | **4,117** | **3,983** |
| Cyllid Cymru | Cyllid Cymru | 4024 | Cyllid Cymru | **2,160** | **1,740** |
| | Cyfanswm SPA | | | **6,277** | **5,723** |

| CYFALAF | | | | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Cyllideb Atodol Gyntaf £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | | | | |
| Rhaglenni Corfforaethol | Rhaglenni Corfforaethol | 4028 | Y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol | 90 | 104 | 120 | 138 | 159 | **521** |
| **Cyfanswm Dyraniadau Cyfalaf** | | | | **90** | **104** | **120** | **138** | **159** | **521** |

| REFENIW | | | | 2017-18 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **CAM GWEITHREDU** | **BEL** | **Enw'r BEL** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig Cyllideb £'000** | **Cyllideb Ddrafft £'000** |
| Gweithrediadau Rhwydwaith y Traffyrdd a'r Cefnffyrdd | Gweithrediadau'r Traffyrdd a'r Cefnffyrdd | 1885 | Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 47,264 | 47,264 |
| | | 1884 | Rheoli a Chefnogi Asedau'r Rhwydwaith | 4,525 | 4,525 |
| | | | | **51,789** | **51,789** |
| | Gwella a Chynnal Rhwydwaith y Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig) - nid yn Arian Parod | 1886 | Rheoli a Chefnogi Asedau'r Rhwydwaith | 108,691 | 188,691 |
| | | | | **108,691** | **188,691** |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | 1890 | Masnachfraint y Rheilffyrdd | 184,079 | 183,283 |
| | | 1883 | Hedfanaeth | 1,600 | 4,548 |
| | | | | **185,679** | **187,831** |
| Teithio Cynaliadwy | Teithio Cynaliadwy | 2030 | Teithio Cynaliadwy a Cherdded a Beicio | 150 | 850 |
| | | 1880 | Cymorth i Fysiau a Thrafnidiaeth Leol | 28,427 | 28,427 |
| | | 2005 | Datblygiadau Seilwaith | 0 | 2,000 |
| | | 2000 | Teithio'n Rhatach ar Fysiau | 22,359 | 22,359 |
| | | 1881 | Cardiau Clyfar | 2,000 | 2,000 |
| | | | | **52,936** | **55,636** |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | 1892 | Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,764 | 4,764 |
| | | | | **4,764** | **4,764** |
| **Cyfanswm y Grŵp** | | | | **403,859** | **488,711** |

| CYFALAF | | | | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SPA | CAM GWEITHREDU | BEL | Enw'r BEL | Cyllideb Atodol Gyntaf £'000 | Cyllideb Ddrafft £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | | | | |
| Gweithrediadau Rhwydwaith y Traffyrdd a'r Cefnffyrdd | Gweithrediadau'r Traffyrdd a'r Cefnffyrdd | 1885 | Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 80,600 | 79,493 | 69,166 | 69,500 | 79,613 | **297,772** |
| | | | | **80,600** | **79,493** | **69,166** | **69,500** | **79,613** | **297,772** |
| Buddsoddi yn y Ffyrdd, y Rheilffyrdd a Hedfanaeth | Cynlluniau Ffyrdd, Rheilffyrdd a Hedfanaeth | 1889 | Adeiladu Ffyrdd Newydd ac Astudiaethau Gwella | 1,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| | | 1888 | Adeiladu Ffyrdd Newydd a Gwelliannau | 116,719 | 155,562 | 50,354 | 44,294 | 106,615 | **356,825** |
| | | 1891 | Buddsoddi yn y Rheilffyrdd | 5,100 | 20,463 | 55,080 | 88,500 | 117,500 | **281,543** |
| | | 1883 | Hedfanaeth | 0 | 4,721 | 4,577 | 4,873 | 0 | **14,171** |
| | | | | **123,719** | **180,746** | **110,011** | **137,667** | **224,115** | **652,539** |
| Teithio Cynaliadwy | Teithio Cynaliadwy | 2030 | Teithio Cynaliadwy a Cherdded a Beicio | 6,650 | 6,650 | 6,650 | 6,650 | 6,650 | **26,600** |
| | | 2000 | Teithio'n Rhatach ar Fysiau | 39,297 | 39,297 | 27,000 | 27,000 | 27,000 | **120,297** |
| | | 1881 | Cardiau Clyfar | 600 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | **4,000** |
| | | 1882 | Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 20,900 | 22,400 | 6,150 | 6,150 | 1,150 | **35,850** |
| | | | | **67,447** | **69,347** | **40,800** | **40,800** | **35,800** | **186,747** |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | 1892 | Diogelwch ar y Ffyrdd | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 6,900 | **27,600** |
| | | | | **6,900** | **6,900** | **6,900** | **6,900** | **6,900** | **27,600** |
| | | | **Cyfanswm Cyfalaf Traddodiadol** | **278,666** | **336,486** | **226,877** | **254,867** | **346,428** | **1,164,658** |
| **FTR** | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | 1883 | Hedfanaeth | 0 | 5,000 | 2,200 | 1,200 | 0 | **8,400** |
| | | | **Cyfanswm FTR** | **0** | **5,000** | **2,200** | **1,200** | **0** | **8,400** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Dyraniadau Cyfalaf** | **278,666** | **341,486** | **229,077** | **256,067** | **346,428** | **1,173,058** |

**Atodiad C**

**Asesiad Effaith Integredig Strategol**

**Golwg gyffredinol**

Mae cynllun gwariant y portffolio'n canolbwyntio ar ein blaenoriaethau sef adeiladu economi gryfach a thecach sy'n sicrhau twf economaidd cynaliadwy a swyddi a chyfleoedd i bobl ym mhob rhan o Gymru. Ein bwriad yw edrych o'r newydd ar sut mae Llywodraeth Cymru'n mynd ati i ddatblygu'r economi a darparu cymorth i fusnesau. Rydym eisoes yn ceisio barn gychwynnol pobl am y blaenoriaethau economaidd sydd eu hangen i sicrhau Cymru decach, fwy llewyrchus a mwy diogel. Bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu bwydo i'r gwaith strategol y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef dros y misoedd nesaf.

A chyflogaeth a mewnfuddsoddi wedi torri pob record a'r gyfradd ddiweithdra'n is nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig drwyddi draw, mae'r sylfeini wedi'u gosod ar gyfer cyflawni yn wyneb yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaen. Rydym yn bwrw ymlaen ag ystod o weithgareddau sydd wedi'u targedu'n dda i sicrhau bod swyddi a chyfleoedd ar gael mewn ffordd gynhwysol ac i sicrhau bod unigolion yn gallu elwa o dwf economaidd gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi a hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") wedi darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu'r cynllun ac rydym wedi mabwysiadu safbwynt tymor hir a dull cyfannol wrth wneud ein penderfyniadau.

Mae datblygu cynaliadwy wrth galon y Ddeddf a dyma egwyddor drefnu ganolog ein cynllun, gan sicrhau bod ein penderfyniadau rhoi sylw i'r amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a'u heffeithiau. Wrth wneud hyn, rydym yn mabwysiadu dull o sicrhau bod cymryd rhan, cydweithio, integreiddio, buddsoddi tymor hir a chamau ataliol yn bwrw gwreiddiau yn ein polisïau a'n cyflawni.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i archwilio sut y gallwn droi at economi garbon-isel sy'n ddarbodus o ran ynni ac yn arloesol er mwyn gwireddu twf a ffyniant economaidd tymor hir. Nid yw'r dull hwn yn disodli datblygu cynaliadwy; yn hytrach, mae'n ei roi ar waith, gan helpu i sicrhau bod amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn bwrw gwreiddiau yn ein ffordd o weithio.

Rydym yn cyflawni ein hymyraethau ym maes trafnidiaeth ym mhob cwr o Gymru fel y maent yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn darparu rhwydwaith sy'n un tymor hir, yn gynaliadwy ac yn integredig, ac er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ymdopi â gofynion y dyfodol o ran anghenion pobl Cymru. Er nad yw'r holl bwerau ym maes trafnidiaeth wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, rydym yn defnyddio'r ystod o bwerau sydd gennym eisoes i gynllunio, datblygu a darparu trafnidiaeth ledled Cymru ar y cyd â phartneriaid, gan gefnogi datblygu economaidd-gymdeithasol a sicrhau cyfleoedd i bawb. Mae gwelliannau i gapasiti ein seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn fanyleb allweddol ar gyfer y newidiadau yr ydym yn dymuno'u gweld wrth fwrw ymlaen â rhaglen y Metro. Mae ein cynlluniau teithio'n rhatach a gostyngiadau ar brisiau tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus yn targedu demograffeg oedran benodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd i fyw bywydau cynaliadwy sy'n eu bodloni. Bydd hwyluso mynediad mwy clyfar drwy gyfrwng trefniadau tocynnu, gwybodaeth a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus megis cyhoeddiadau clyweledol ar fysiau'n help i liniaru effeithiau heneiddio.

Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu system drafnidiaeth integredig, amlfodd a chynaliadwy sy'n darparu ar gyfer anghenion datblygu busnesau, yn galluogi ein cymunedau i ffynnu, ac yn rhoi cyfle i'n holl bobl fanteisio ar y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, cynaliadwy sy'n eu bodloni.

Mae ein rhaglenni cyfalaf a seilwaith yn sail i gydnerthedd amgylchedd adeiledig a naturiol Cymru i ddiwallu ei hanghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym wedi darparu Cyllideb cyfalaf pedair blynedd i gynnig eglurder ar gyfer ein cynlluniau yn y tymor hwy. Drwy arddel ymagwedd llywodraeth gyfan a'i defnyddio ynghyd â'n sbardunau cynllunio defnydd tir, gall trafnidiaeth sicrhau newid trawsffurfiol drwy Gymru, gan wireddu ein hagenda ehangach ym maes iechyd, addysg, trechu tlodi a gwella cydlyniant cymdeithasol.

Mae twf gwyrdd yn sicrhau bod ein cyfoeth naturiol sylweddol yn cael gofal er mwyn iddo barhau i'n cynnal mewn ffordd gymdeithasol deg, er lles pobl Cymru. Mae hynny'n golygu sicrhau rhagor o arbedion a chynaliadwyedd ym mhob rhan o'n heconomi drwyddi draw ac mewn busnesau a sefydliadau ar draws pob sector. Mae Twf Gwyrdd Cymru yn trosi ein nodau polisi'n gamau gweithredu ar lawr gwlad drwy ddeddfwriaeth, polisïau a rhaglenni cyflawni i greu'r amgylchiadau gorau posibl er mwyn i fusnesau, sefydliadau ac unigolion sicrhau twf cynaliadwy. http://gov.wales/docs/det/publications/160412-business-of-becoming-a-sustainable-nation-cy.pdf

Mae'r portffolio'n cydnabod arwyddocâd pwysig y Gymraeg i economi Cymru a swyddogaeth allweddol Safonau'r Gymraeg ac asesu'r effaith ar y Gymraeg wrth inni lunio'n hymagwedd at hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Mae'r cynllun yn creu'r cysylltiadau mewn meysydd gwasanaeth, yn enwedig trafnidiaeth, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae ein cynlluniau hefyd yn rhoi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r gofyniad yng Nghymru i asesu effaith y camau a gymer Gweinidogion gyda golwg ar hawliau plant a phobl ifanc. Ystyriwyd hawliau plant wrth lunio Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i roi saith nod llesiant y Ddeddf ar waith. Mae ein cynigion yn y gyllideb wedi parhau i edrych ar sut y byddwn yn sicrhau bod y pum ffordd o weithio'n bwrw gwreiddiau i'n helpu i sicrhau'r dylanwad mwyaf, i lywio cynlluniau sy'n helpu i Symud Cymru Ymlaen ac i arddel ymagwedd integredig at ystyried yr effeithiau ar grwpiau sy'n cael eu gwarchod a'n helpu i ganolbwyntio ar y nodau cenedlaethol sy’n gyffredin inni i gyd.

**Y Tymor Hir**

- Rydym eisoes yn cymryd camau sy'n gyson â'n dyletswydd o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd ein buddsoddi mewn prosiectau seilwaith yn help i greu'r amgylchiadau iawn i sicrhau llewyrch economaidd i Gymru yn awr ac yn y tymor hir.
- Mae ymgyrch Syniadau Mawr Cymru yn rhan o wasanaeth Busnes Cymru ac mae'n cefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ifanc yn y wlad. Ymagwedd tymor hir ar gynllunio trafnidiaeth yw'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Genedlaethol ac ymgynghorwyd yn helaeth yn ei gylch.

**Atal**

- Ni allwn fforddio i wastraffu sgiliau a doniau neb o'n dinasyddion, nac yn awr nac yn y dyfodol. Mae tlodi'n niweidio unigolion a hefyd iechyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad. Mae creu swyddi a thwf yn ganolog i'n hymdrechion i helpu i drechu tlodi yng Nghymru ac rydym yn sylweddoli mai swyddi sy'n talu'n dda sy'n cynnig y warchodaeth orau rhag tlodi.
- Rydym yn cymryd camau i hybu'r cyflog byw yng Nghymru gan ein helpu i gamu ymlaen at Gymru sy'n fwy cyfartal.
- Mae cymorth i fysiau a threnau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran iechyd a heriau cymdeithasol ac yn help i sefydlu cymdeithas decach a mwy cyfartal.

**Integreiddio**

- Mae ein cymorth i drafnidiaeth yn helpu pobl yng Nghymru i gael gafael ar gyfleoedd gwaith a hyfforddiant a fydd nid yn unig yn gwella'u ffyniant economaidd yn awr ac yn y dyfodol ond hefyd yn gwella cysylltedd ein cymunedau ac yn help inni gamu ymlaen at greu Cymru fwy cyfartal.

**Cydweithio**

- Byddwn yn ymgysylltu â llawer o bartneriaid ym myd busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan weithio tuag at y nodau sy'n gyffredin inni. Er enghraifft, mae'r Dinas Ranbarthau a'r Ardaloedd Menter yn cynnig arweiniad a chyfeiriad strategol ar gyfer datblygu economaidd gofodol.
- Mae'r Cyngor Adfywio Economaidd yn cynnig fforwm ar gyfer cydweithio â phartneriaid cymdeithasol ac yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o fyd busnes (gan gynnwys mentrau cymdeithasol), Cynghrair Undebau Llafur Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Byddwn yn gosod allan ein cynlluniau ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol cyn bo hir ac yn cynnig rhagor o sicrwydd a chynaliadwyedd ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.
- Rydym yn cefnogi cynlluniau sydd wedi'u hanelu at annog cadwyni cyflenwi i arloesi a thyfu'n gyfrifol megis y webarth busnesau cyfrifol ar wefan Busnes Cymru.

**Cymryd Rhan**

- Ym mis Mawrth 2016, cynhaliwyd Uwchgynhadledd Twf Gwyrdd ryngwladol yng Nghaerdydd. Llwyfan i lunwyr polisïau ac arweinwyr busnes oedd yr uwchgynhadledd hon er mwyn iddynt ddod ynghyd i drafod yn agored sut y gallwn fod yn economi fwy arloesol a chynhyrchiol sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac sy'n rhad ar garbon.
- Byddwn yn noddi Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru'n benodol i wella'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli busnesau, Cynghrair Undebau Llafur Cymru a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.
- Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid drwy'r wlad wrth benderfynu ynglŷn â blaenoriaethau economaidd Cymru. Rydym yn awyddus i gynnwys pobl eraill a chydweithio â hwy er mwyn inni ganolbwyntio ar y pethau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn a hwnnw'n wahaniaeth sy'n para.

Yn sgil paratoi ein cynlluniau ac wedi ystyried y tueddiadau demograffig a'r ystadegau diweddar a ganlyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gwelwyd:

- Bod disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu i 3.18 miliwn erbyn 2024 ac i 3.26 miliwn erbyn 2039.
- Bydd nifer y plant yn cynyddu drwyddi draw i 567,000 yn 2039 (cynnydd o 2.3% rhwng 2014 a 2039).
- Bydd nifer y bobl 16-64 oed yn gostwng 6% (108,000) rhwng 2014 a 2039.
- Bydd nifer y bobl 65+ yn cynyddu 30% (271,000) rhwng 2014 a 2039.

Mae dolen i'r ddogfen hon ar gael yma http://gov.wales/statistics-and-research/national-population-projections/?lang=cy.

**Amddifadedd a Thlodi**

Mae ein rhaglenni a'n prosiectau'n adlewyrchu ymrwymiad tymor hir Llywodraeth Cymru i liniaru effaith amddifadedd a thlodi. Rydym yn canolbwyntio ar greu a chadw swyddi sy'n golygu bod pobl mewn tlodi neu mewn perygl o ddisgyn i dlodi, ymgysylltu'n gadarnhaol â'r farchnad lafur, gan gydnabod bod swyddi'n warchodaeth gref i bobl rhag tlodi, yn enwedig tlodi parhaus.

Rydym yn mynd ati mewn ffordd gytbwys, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o ddiwydiannau a sectorau i ysgogi'r galw am bob math o swydd. Ein nod yw cefnogi cyfleoedd i unigolion medrus iawn, yn ogystal â chyfleoedd ar y lefel mynediad a chyfleoedd i gamu ymlaen i'r rheini sydd ymhellach oddi wrth y farchnad lafur.

Mae ein rhaglenni a'n prosiectau hefyd yn help i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebir gan bobl wrth iddynt geisio cael gafael ar waith a hyfforddiant i sicrhau bod y rheini sydd mewn tlodi neu mewn perygl o ddisgyn i dlodi'n gallu elwa o'r cyfleoedd a gaiff eu creu yn sgil twf economaidd. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddatblygu sgiliau i arfogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith, darparu rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol a fforddiadwy sy'n galluogi pobl i gyrraedd gwaith a hyfforddiant, ac ymdrechion i annog arferion cyflogaeth cyfrifol, megis trefniadau gweithio hyblyg, sy'n gadael i bobl weithio o amgylch cyfrifoldebau gofalu, neu weithio rhagor o oriau ac ennill rhagor o gyflog.

Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn sbarduno gallu Cymru i gystadlu'n economaidd, gan gysylltu pobl, cymunedau a busnesau â swyddi, cyfleusterau a marchnadoedd. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu system drafnidiaeth integredig, amlfodd, gynaliadwy sy'n darparu ar gyfer anghenion datblygu busnesau, yn galluogi'n cymunedau i ffynnu, ac yn rhoi cyfle i'n holl bobl fanteisio ar y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, cynaliadwy sy'n eu bodloni.

Mae'r system integredig honno'n ysgogiad pwysig ar gyfer gwireddu agenda ehangach y Llywodraeth ar gyfer trechu tlodi a mynd i'r afael â chydlyniant cymdeithasol, gan gynnig cyfleoedd a chefnogi trefniadau megis trefniadau gweithio hyblyg, sy'n gadael i bobl weithio o amgylch cyfrifoldebau gofalu, neu weithio rhagor o oriau ac ennill rhagor o gyflog.

**Asesu'r Effaith ar y Gymraeg**

Ystyrir gofynion y Gymraeg fel mater o drefn ar gyfer rhaglenni a phrosiectau. Mae'r egwyddorion wedi bwrw gwreiddiau yn y ddarpariaeth i atgyfnerthu pwysigrwydd y Gymraeg wrth greu amgylchedd busnes sefydlog a ffafriol, hybu sgiliau a buddsoddi mewn seilwaith economaidd, gan gynnwys trafnidiaeth a chyfathrebu. Dyma ambell enghraifft:

- **Y Rhaglen Entrepreneuriaeth i Bobl Ifanc**
  Drwy Gymru, mae rhwydwaith cryf o 379 o entrepreneuriaid yn gweithio fel Modelau Rôl gydag ymgyrch Syniadau Mawr Cymru i gymell ac ysbrydoli ein pobl ifanc. Mae'r rhwydwaith Modelau Rôl yn cynnwys 20% o siaradwyr Cymraeg i helpu i ddarparu gweithdai mewn ysgolion a cholegau.

- **Gwasanaethau Rheilffyrdd**
  Mae'r ddarpariaeth gyllido wedi'i chynnwys mewn trefniadau contract megis masnachfraint Cymru a'r Gororau a ddyfarnwyd yn 2003. Darperir gwasanaethau megis gwasanaeth i gwsmeriaid dros y ffôn, a byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl arwyddion, amserlenni a gwybodaeth a chyhoeddusrwydd arall i deithwyr yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- **Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015**
  Aseswyd effaith y Cynllun ar y Gymraeg a bydd hyn yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer gwario ar Drafnidiaeth yn y dyfodol.

- **Ardal Twf Dyffryn Teifi**
  Cryfhau'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn lleol a mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatblygu busnesau a phobl. Hefyd, mae prosiect Peilot ar gyfer y Gymraeg wedi'i roi ar waith, gan ymgysylltu'n wreiddiol â phedwar gweithdy yn Aberteifi, Llandysul, Castellnewydd Emlyn a Llanbedr Pont Steffan i weld sut y gall defnyddio'r Gymraeg fod o fudd i'r economi leol.

**Effeithiau a Thystiolaeth**

**Trafnidiaeth**

Mae Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 yn dangos y rhan hanfodol sydd gan drafnidiaeth i'w chwarae'n gwella gallu Cymru i gystadlu a'i gwneud yn haws i bobl gyrraedd swyddi a gwasanaethau. Wrth fuddsoddi mewn trafnidiaeth, mae'n bwysig canolbwyntio ar sut y gall wasanaethu anghenion busnesau i'w galluogi i ffynnu; a'i gwneud yn bosibl i bobl fanteisio ar y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, cynaliadwy sy'n eu bodloni. Aseswyd Effaith y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://gov.wales/docs/det/policy/150716-ntfp-impact-assessment.pdf

Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am aelwydydd sydd heb gar at eu defnydd, pobl heb drwydded gyrru, profion gyrru a bathodynnau parcio cerbydau:
http://gov.wales/statistics-and-research/people-vehicle-licensing-ownership/?lang=cy

Mae gwasanaethau'r rheilffyrdd yn darparu cysylltedd pwysig mewn ardaloedd gwledig, ac mae ein cyllideb yn cydnabod y budd cymdeithasol ac economaidd i'r gymuned a gefnogir gan wasanaethau'r rheilffyrdd, yn enwedig o ran cydlyniant cymunedau a thwristiaeth. Wrth baratoi i ddyfarnu masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau, rydym wrthi'n datblygu ein hymagwedd strategol at wasanaethau'r rheilffyrdd. Cyhoeddwyd ein hymgynghoriad ynglŷn â'r polisi '*Gosod y Cyfeiriad ar gyfer Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau*' yn gynharach eleni fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ymgysylltu â phawb perthnasol. Mae'r adroddiad a ganlyn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd: http://gov.wales/docs/det/consultation/1.60712-rails-borders-franchise-consultation-results-en.pdf

Er gwaethaf setliadau heriol yn y gyllideb, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyllid awdurdodau lleol ar gyfer y Grant Cymorth i Wasanaethau Bysiau ar £25m y flwyddyn i'w helpu i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Gan ymdrechu i wella ansawdd gwasanaethau bysiau lleol eto yng Nghymru a defnyddio'r arian sydd ar gael drwy'r Grant Cymorth i Wasanaethau Bysiau'n well, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Safon Ansawdd Wirfoddol i Fysiau Cymru ym mis Mawrth 2016, a'i nod yw:

- Sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau bysiau lleol y gall teithwyr yn rhesymol ei ddisgwyl yn gyson drwy Gymru ac ar gael ym mhobman.

- Sicrhau bod gweithredwyr bysiau lleol yn cael eu hannog i wella ansawdd y gwasanaethau y byddant yn eu darparu i deithwyr.

**Cymorth Busnes**

Rydym yn dal i fwrw ymlaen ag ystod o weithgareddau sydd wedi'u targedu'n dda i helpu i sicrhau bod swyddi a chyfleoedd ar gael mewn ffordd gynhwysol a bod pob unigolyn yn gallu elwa o dwf economaidd. Mae sawl asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal gan y portffolio, sydd wedi helpu i lywio ein gweithgareddau. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys data am Werth Ychwanegol Crynswth (GVA), swyddi i weithwyr, enillion fesul awr, cyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster. Byddwn yn ystyried y rhain wrth lunio ein cynlluniau gwariant: http://gov.wales/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=cy

Mae tua 45% o'r swyddi sydd ar gael yng Nghymru i'w canfod yn y sectorau â blaenoriaeth[3]. Rydym yn darparu dros £26m o gymorth yn 2015-17 a £236m yn arian cyfalaf dros y cyfnod 2017-18 tan 2020-21 i'n Sectorau â Blaenoriaeth (ac eithrio Gwyddorau Bywyd).

Mae'r rhaniad rhwng gweithwyr gwryw a gweithwyr benyw'n gymharol gyfartal mewn rhai sectorau megis: Twristiaeth (53% gwryw a 47% benyw) a Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol (56% gwryw a 44% benyw). Ond dynion yn bennaf sy'n cael eu cyflogi mewn meysydd eraill megis: Adeiladu (90%), Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (81%) a TGCh (74%) a bydd cymorth i'r sectorau hyn yn cael effaith gadarnhaol anghymesur.

Ar gyfartaledd yng Nghymru, mae 3.7% o'r rheini sydd mewn gwaith yn dod o gefndir ethnig nad yw'n wyn. Mae rhai o'n sectorau â blaenoriaeth megis Twristiaeth yn cyflogi 7.6% a'r TGCh yn cyflogi 5.9% o bobl o gefndir ethnig nad yw'n wyn a bydd rhoi cymorth i'r sectorau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.

Mae'r sectorau a ganlyn yn cyflogi mwy o bobl anabl yng Nghymru na'r un sector yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw: Mae'r Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yn cyflogi 12.5% (9.3% yn y DU), y Sector TGCh yn cyflogi 11.6% (8.5%) ac Adeiladu'n cyflogi 11.2% (9.6% yn y DU) o bobl o'r grŵp hwn sy'n cael ei warchod. Mae'r sectorau hynny sy'n cyflogi'r ganran isaf o bobl anabl yng Nghymru'n cynnwys: Gwyddorau Bywyd (7.7%) a'r Diwydiannau Creadigol (9.5%), ac fe allai cymorth i'r sectorau hyn gael effaith negyddol ar y grŵp hwn sy'n cael ei warchod.

Twristiaeth sy'n cyflogi'r ganran uchaf o bobl rhwng 16 a 24 oed, sef 30.5%, o'i gymharu â'r cyfartaledd drwy Gymru, sef 12.5%. O ran y bobl hynny sy'n 50 oed a hŷn, mae 7 ardal

---

[3] Ystadegau'r Sectorau â Blaenoriaeth 2016 - http://gov.wales/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=cy

â blaenoriaeth yn cyflogi canran uwch o bobl yn y grŵp oedran hwn nag yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw, er enghraifft:  Creadigol 32.3% (26.4% yn y DU), Sectorau TGCh 29.8% (24.3% yn y DU), Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol 33% (28.2% yn y DU).

Er mwyn ceisio goresgyn rhai o'r effeithiau anghymesur y gallai cymorth i'r sectorau hyn eu cael ar grwpiau sy'n cael eu gwarchod, rydym yn cymryd nifer o gamau megis:

- Gweithio gyda chwmnïau megis Airbus a Ford, gan ddarparu cymorth i ddenu prentisiaid sy'n fenywod.
- Gweithio gydag Amrywiaeth Cymru i annog pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â chronfa ddata Sgrin Cymru.
- Helpu gyda'r Cynllun i Raddedigion Gwasanaethau Ariannol mewn partneriaeth â'r gymuned fusnes.
- Casglu data cydraddoldeb am ymatebwyr i ymgyrchoedd marchnata a'r nifer cysylltiedig sy'n manteisio ar gymorth gan Lywodraeth Cymru a fydd helpu'r portffolio i ddeall y rhwystrau a wynebir gan grwpiau a warchodir.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Memorandwm ar yr Economi a'r Seilwaith
# Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017/18
# Sgiliau a Gwyddoniaeth

## Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – 3 Tachwedd 2016

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am elfennau Sgiliau a Gwyddoniaeth cynigion y gyllideb ar gyfer yr Economi a'r Seilwaith, fel y'u nodir yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017/18 a gyhoeddwyd ar 18 Hydref. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyhoeddi setliad refeniw blwyddyn, er mwyn caniatáu amser i asesu effaith Datganiad yr Hydref yn nhermau cynlluniau gwario refeniw ar ôl 2017/18. Cyhoeddwyd cyllideb cyfalaf bedair blynedd sy'n cynnwys cyllideb gadarn ar gyfer 2017/18 a dyraniadau dangosol ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Bydd yr agwedd hirdymor hon ar gynllunio cyfalaf yn darparu mwy o dryloywder a sicrwydd i'n rhanddeiliaid allweddol a'n partneriaid cyflawni.

## 2.0 Crynodeb o'r Newidiadau yn y Gyllideb

Yn gyffredinol, mae dyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2017/18 i gefnogi'r portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth wedi cynyddu £14.147 miliwn, o'u cymharu â Chyllideb Sylfaenol Ddiwygiedig 2016/17. Mae'r symudiad hwn yn cynnwys gostyngiad cyfalaf o £0.024 miliwn a chynnydd o £14.171 miliwn i'r dyraniad cyfalaf, a ddangosir yn Nhablau 1 a 2 isod. Nid oes unrhyw newidiadau yn y gyllideb anariannol.

**TABL 1: TROSOLWG O'R GYLLIDEB REFENIW**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017/18 £'000 | Newidiadau 2017/18 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| Sectorau a Busnes (Gwyddorau Bywyd yn unig) | 2,896 | 0 | 2,896 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 10,514 | 0 | 10,514 |
| Sgiliau | 141,875 | 0 | 141,875 |
| Seilwaith | 9,041 | (24) | 9,017 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **164,326** | **(24)** | **164,302** |
| **Anariannol** | | | |
| Seilwaith | 1,309 | **0** | 1,309 |
| **Cyfanswm** | **1,309** | **0** | **1,309** |

**TABL 2: TROSOLWG O'R GYLLIDEB CYFALAF**

| | Cyllideb Atodol Gyntaf 2016/17 £'000 | Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017/18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | |
| Sectorau a Busnes (Gwyddorau Bywyd yn Unig) | 6,855 | 9,711 | 3,605 | 2,000 | 1,000 | **16,316** |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 5,541 | 12,610 | 601 | 62 | 62 | **13,335** |
| Seilwaith | 16,304 | 20,550 | 7,500 | 1,500 | 19,500 | **49,050** |
| **CYFANSWM** | **28,700** | **42,871** | **11,706** | **3,562** | **20,562** | **78,701** |

Mae Tabl manwl ar Linellau Gwariant yn y Gyllideb yn **Atodiad A.**

## 2.1 Newidiadau Refeniw

Wrth baratoi'r cynlluniau rydym wedi ceisio lleihau'r gostyngiadau refeniw y mae angen eu gwneud o'r portffolio. Mae'r gyllideb refeniw wedi'i diogelu gydag un arbediad bach o £0.024 miliwn yn y gyllideb Seilwaith TGCh oherwydd llai o alw am waith datblygu contractau. Mae'r gostyngiad hwn yn rhan o arbediad refeniw ehangach sy'n ofynnol gan y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Economi a'r Seilwaith.

Ein prif gymorth refeniw yw parhau i ariannu prentisiaethau a hyfforddiaethau yng Nghymru. Yn 2017/18 caiff yr ymrwymiad allweddol i sicrhau 100,000 o leoedd prentisiaeth newydd yn Symud Cymru Ymlaen 2016-21 ei gefnogi gyda £111 miliwn. Bydd y lleoedd hyn yn darparu'r hyfforddiant cywir i bobl o bob oed, er mwyn iddynt allu cael mynediad i'r swyddi sydd eu hangen arnynt i wneud cyfraniad ystyrlon at gymdeithas a sicrhau bod cyflogwyr yn gallu cyflogi pobl sy'n meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu busnesau.

Mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cyflawni ymrwymiadau Symud Cymru Ymlaen ymhellach, drwy ddarparu cymorth i'r economi drwy fuddsoddiad parhaus mewn gwyddoniaeth, arloesi a gwyddorau bywyd. Gallwn hefyd barhau i gefnogi gallu'r sector cyhoeddus i gael mynediad i fand eang cyflymach ar hyd a lled Cymru a sicrhau bod pobl yn meddu ar y sgiliau digidol er mwyn gallu manteisio ar y dechnoleg hon.

## 2.2 Newidiadau Cyfalaf

Mae'r setliad cyfalaf pedair blynedd ar gyfer MEG yr Economi a'r Seilwaith yn heriol ac felly mae'r cynlluniau wedi'u blaenoriaethu ar draws y portffolio er mwyn hyrwyddo'r agenda Symud Cymru Ymlaen.

Ar gyfer 2017/18, mae cynnydd o £2.856 miliwn ar gyfer Gwyddorau Bywyd ac £8.677 miliwn ar gyfer Arloesi yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ariannu prosiectau mawr a denu buddsoddiadau o ansawdd uchel i Gymru. Mae cyllidebau'r blynyddoedd i ddod yn adlewyrchu llai o gyllid yn unol â'r gofynion cyflawni ar gyfer y prosiectau hyn. Mae'r gyllideb cyfalaf ar gyfer gwyddoniaeth yn gostwng £1.608 miliwn yn 2017/18, sy'n unol â'r gofynion cyllido prosiectau sy'n cael eu cyflawni.

Mae cyllideb y Seilwaith TGCh wedi cynyddu £4.246 miliwn yn 2017/18 sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu band eang cyflym ac effeithiol i bob cartref a safle yng Nghymru, er gwaethaf y setliad cyllideb heriol. Mae'r gostyngiadau yn 2018/19 a 2019/20 a chynnydd dilynol yn 2020/21 yn y llinell wariant hon yn y gyllideb (BEL) yn y dyfodol yn adlewyrchu'r ffaith y bydd y prosiectau presennol yn dod i ben a dechrau'r Prosiect Cyflymu Cymru II arfaethedig.

## 3.0 Cyllidebau Sectorau a Busnes

| Maes Rhaglenni Gwariant: Sectorau a Busnes | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **BEL** | **Categori Gwariant** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017/18 £'000** | **Newidiad au 2017/18 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2017/18 £'000** |
| Sectorau | 3764 – Gwyddorau Bywyd | Adnoddau | 2,896 | 0 | 2,896 |
| **CYFANSWM** | | | **2,896** | **0** | **2,896** |

| Cam Gweithredu: Sectorau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016/17 £'000** | **Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017/18** | | | | |
| | | **2017/18 £'000** | **2018/19 £'000** | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **Cyfans wm £'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | |
| 3764 – Gwyddorau Bywyd | 6,855 | 9,711 | 3,605 | 2,000 | 1,000 | **16,316** |
| **CYFANSWM** | **6,855** | **9,711** | **3,605** | **2,000** | **1,000** | **16,316** |

Y Sector Gwyddorau Bywyd – Trosolwg o Bolisi a Strategaeth

Mae'r sector Gwyddorau Bywyd yn sbardun pwysig o ran twf economaidd a gwella llesiant. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi drwy greu swyddi, cynyddu cyfoeth a datblygu sgiliau ym mhen uchaf y farchnad. Yn cwmpasu'r diwydiant fferyllol, biodechnoleg a thechnoleg feddygol gyda weithgareddau amrywiol gan gynnwys ymchwil, profi, gweithgynhyrchu a darparu gwyddoniaeth arbenigol, mae Gwyddorau Bywyd yn ymgorffori partneriaid o fyd busnes, y GIG a meysydd academaidd. Mae gan y sector yng Nghymru glystyrau o ragoriaeth a chyda'r cymorth priodol, gellid datblygu hyn yn sector hyfyw, cynaliadwy a ffyniannus o fudd economaidd a chymdeithasol sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesi a thwf busnes yn y maes Gwyddorau Bywyd. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar sicrhau cynnydd mewn cyflogaeth yn y sector (y swyddi sy'n cael eu creu, eu diogelu a'u cynorthwyo) ac olrhain y manteision ehangach i iechyd a'r economi yng Nghymru.

Rhaglenni a Phrosiectau Pwysig

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer y Gwyddorau Bywyd yn ariannu nifer o raglenni / prosiectau seilwaith meithrin gallu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor a chreu swyddi drwy weithgareddau cefnogi busnesau Cyllid Busnes Ad-daladwy.

Yn y **tymor byr,** byddwn yn parhau i ddarparu cymorth refeniw a chyfleoedd i ddatblygu ar gyfer ecosystem y Gwyddorau Bywyd yng Nghymru. Bydd y Ganolfan Gwyddorau Bywyd yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r ecosystem a bydd yn canolbwyntio ar gynnal ymyriadau cymorth i'r sector gan gynnwys y GIG (Cymru), Cronfa Bontio Gwyddorau Bywyd, Boost Cymru a'r Gronfa Fuddsoddi mewn Gwyddorau Bywyd. Yn 2017/18 neilltuwyd £2.896 miliwn gennym ar gyfer y mentrau hyn.

Mae manteision a chyfleoedd sy'n deillio o'n buddsoddiadau presennol yn y sector hwn yn cael eu hystyried. Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd Caerdydd yn ganolfan ranbarthol ar gyfer Precision Medicine Catapult, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i greu'r effaith economaidd fwyaf. Mae Cymru wedi creu clwstwr o fusnesau meddygaeth aildyfu amlwg a byddwn yn gweithio ar lefel ryngwladol i ddatblygu busnesau.

Yn y **tymor canolig,** byddwn yn hwyluso treialon a chysylltiadau arddangos ac yn cynorthwyo gyda chyfleoedd llwybr i'r farchnad ar gyfer busnesau Gwyddorau Bywyd yn GIG Cymru ac is-sectorau strategol allweddol. Bydd gwariant cyfalaf o £16.316 miliwn dros y pedair blynedd yn cefnogi'r ymrwymiadau ar gyfer y buddsoddiadau seilwaith strategol, ac yn creu amgylchedd heb ei ail a fydd yn galluogi cwmnïau meddygaeth aildyfu i ffynnu. Gan adeiladu ar lefelau uwch o integreiddio'r ecosystem, byddwn yn cynnal gweithgareddau a fydd yn cyflawni potensial y Gadwyn Gyflenwi Gwyddorau Bywyd yng Nghymru. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chynigion eraill yn

cynnwys ARCH (Gorllewin Cymru) a'r Ganolfan Arloesi Clinigol (De Cymru) er mwyn iddynt allu sicrhau'r effaith economaidd fwyaf.

Yn y **tymor hwy**, byddwn yn parhau i godi proffil rhyngwladol y sector drwy greu brand rhyngwladol sy'n amlygu ei natur lwyddiannus arloesol ac yn denu twf a swyddi newydd i Gymru. Rydym hefyd yn ceisio creu llwybr cliriach i'r farchnad ar gyfer cyflwyno cynhyrchion i'r GIG a'u mabwysiadu yn y tymor hwy.

## 4.0 Cyllidebau Gwyddoniaeth ac Arloesi

| **Maes Rhaglenni Gwariant: Gwyddoniaeth ac Arloesi** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **BEL** | **Categori Gwariant** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017/18 £'000** | **Newidiad au 2017/18 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2017/18 £'000** |
| Arloesi | Arloesi Busnes | Adnoddau | 1,520 | 0 | 1,520 |
| | Canolfannau Arloesi a Chyfleusterau Ymchwil a Datblygu | Adnoddau | 2,553 | 0 | 2,553 |
| | Cydweithio rhwng y Byd Academaidd a Busnes | Adnoddau | 1,646 | 0 | 1,646 |
| **Cyfanswm** | | | **5,719** | **0** | **5,719** |
| Gwyddoniaeth | Gwyddoniaeth | Adnoddau | 4,795 | **0** | 4,795 |
| **Cyfanswm** | | | **4,795** | **0** | **4,795** |
| **CYFANSWM** | | | **10,514** | **0** | **10,514** |

| **BEL** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016/17 £'000** | **Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017/18** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2017/18 £'000** | **2018/19 £'000** | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **Cyfans wm £'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | |
| **Cam Gweithredu: Arloesi** | | | | | | |
| Cydweithio rhwng y Byd Academaidd a Busnes | 3,062 | 11,739 | 62 | 62 | 62 | **11,925** |
| **Cyfanswm** | **3,062** | **11,739** | 62 | 62 | 62 | **11,925** |
| **Cam Gweithredu: Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Gwyddoniaeth | 2,479 | 871 | 539 | 0 | 0 | **1,410** |
| **Cyfanswm** | **2,479** | **871** | **539** | **0** | **0** | **1,410** |
| **CYFANSWM** | **5,541** | **12,610** | **601** | **62** | **62** | **13,335** |

**Llinell Wariant yn y Gyllideb - Arloesi**

Mae'r cyllid refeniw a chyfalaf o £17.644 miliwn ar gyfer Arloesi yn cefnogi rhaglenni arloesi yr UE, SMART Cymru ac Arbenigedd SMART. Mae'r rhaglenni hyn yn annog busnesau i fuddsoddi mewn arloesi a datblygu cysylltiadau gyda'r byd academaidd gydag arloesi busnes, gyda'r nod o wella natur gystadleuol cwmnïau a darparu twf economaidd cynaliadwy. Mae'r cyllid cyfalaf uwch yn 2017/18 yn ein galluogi i gwblhau ein buddsoddiad ym Mharc Gwyddoniaeth Menai a'r Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb - Gwyddoniaeth**

Mae'r cyllid refeniw a chyfalaf o £6.205 miliwn yn cefnogi mentrau i gyflawni Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi Sêr Cymru, Sêr Cymru 2 a mentrau'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae dyraniad cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd i ddod o £1.410 miliwn yn darparu ar gyfer gofynion cyfalaf Sêr Cymru wrth i'r rhaglenni gael eu cyd-ariannu gyda chyllid allanol. Mae rhaglenni Sêr Cymru yn cael eu cefnogi hefyd gan gyllidebau Iechyd ac Addysg.

## 5.0 Cyllidebau Sgiliau

| **Maes Rhaglenni Gwariant: Sgiliau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Categori Gwariant** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017/18 £'000** | **Newidiad au 2017/18 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2017/18 £'000** |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | Dysgu Seiliedig ar Waith | Adnoddau | 111,308 | | 111,308 |
| Sgiliau Darparu Cymorth | Sgiliau Marchnata | Adnoddau | 648 | | 648 |
| Polisi Sgiliau | Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu | Adnoddau | 1,261 | (200) | 1,061 |
| Cyflogaeth a Sgiliau | Cyflogaeth a Sgiliau | Adnoddau | 28,658 | 200 | 28,858 |
| **CYFANSWM** | | | **141,875** | **0** | **141,875** |

Mae £0.200 miliwn yn cael ei drosglwyddo o'r gyllideb Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu i'r gyllideb Cyflogaeth a Sgiliau. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi datblygiad Strategaeth Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a dull newydd o ddarparu

hyfforddiant sgiliau a chyflogadwyedd i bobl ddi-waith a phobl sy'n cael eu tangyflogi sy'n 16 oed a hŷn.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb - Dysgu Seiliedig ar Waith**

Cyllideb 2017/18 ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yw £136.308 miliwn o wariant gros gyda chyfraniadau o £25 miliwn wedi'u cyllidebu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n gadael cyllideb net o £111.308 miliwn.

Mae'r gyllideb Dysgu Seiliedig ar Waith yn cefnogi:

- darparu prentisiaethau ar gyfer pob oedran (tua £98 miliwn)
- darparu'r rhaglen Hyfforddiaethau (rhaglen cyflogadwyedd ieuenctid Llywodraeth Cymru) (tua £33 miliwn);
- cymorth i recriwtio prentisiaid 16-18 oed (tua £2.5 miliwn)
- y rhaglen Ysbrydoli Sgiliau a chynlluniau peilot eraill sy'n ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau e.e. 'Have a Go' (tua £1.2 miliwn)
- Costau staff a marchnata sy'n gysylltiedig â phrosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (tua £2 filiwn).

Mae prentisiaethau yn cael eu hariannu am ddwy flwyddyn ariannol neu fwy, yn ôl hyd y rhaglen Brentisiaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i gefnogi prentisiaid nes byddant wedi cwblhau eu fframweithiau. Mae'r gyllideb hon yn darparu'r cyllid i ddechrau darparu'r ymrwymiad 'Symud Cymru Ymlaen' o 100,000 o brentisiaethau newydd yn ystod oes y llywodraeth. Bydd hyn yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl o bob oed i ddod o hyd i swyddi hirdymor ac, mewn busnesau, y gweithlu medrus sydd ei angen i ddatblygu eu busnes a'r economi yng Nghymru.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb - Sgiliau Marchnata**

Mae'r gyllideb hon yn ariannu gweithgaredd marchnata i hybu'r rhaglenni prentisiaethau a hyfforddiaethau a chefnogi digwyddiadau gwobrwyo sgiliau.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb – Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu**

Mae gwaith o dan y Llinell Wariant yn y Gyllideb - Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu wedi'i drefnu o dan dri amcan allweddol:

- Creu a chyfleu polisi sgiliau Llywodraeth Cymru gan ystyried y tirlun polisi ehangach ar draws y DU gyfan;
- Sefydlu agenda darparu sgiliau gref, wedi'i harwain gan gyflogwyr, gyda chefnogaeth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol;

- Ymgysylltu â chyflogwyr allweddol a'u cefnogi drwy reoli perthnasau strategol er mwyn cyflawni anghenion sgiliau drwy brosiectau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr.

Mae'r agenda Polisi Sgiliau ac Ymgysylltu yn cynnwys: arwain ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel sail i'n systemau addysg a hyfforddiant galwedigaethol gan ystyried agenda sgiliau'r DU; cefnogi systemau sicrhau ansawdd, dosbarthu, dadansoddi a chaffael tystiolaeth i gefnogi sgiliau, cyflogaeth a datblygu dysgu drwy wybodaeth gadarn am y Farchnad Lafur, gan weithio'n agos gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; a gweithredu fel yr arweinydd sgiliau wrth ymgysylltu â chyflogwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Thimau Sector a Busnes ehangach ar arwain ar y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, i gyflawni anghenion sgiliau cyflogwyr strategol nad yw'r ddarpariaeth brif ffrwd yn gallu eu cyflawni.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb – Cyflogaeth a Sgiliau**

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb – Cyflogaeth a Sgiliau yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a darparu strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n cynorthwyo pobl i gael mynediad i waith, dychwelyd at waith, parhau a gwneud cynnydd mewn gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant. Mae'r gyllideb graidd o £28.858 miliwn yn denu £20 miliwn y flwyddyn gan yr UE i gefnogi swm sylweddol o weithgaredd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae'r gyllideb yn darparu nifer o raglenni a gweithgareddau cymorth cyflogadwyedd a sgiliau presennol, gan gynnwys ReAct, Twf Swyddi Cymru, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau, y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, Cronfa Ddysgu Undebau Cymru, Y Porth Sgiliau, ac mae'n rheoli cyllid craidd ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Dysgu TUC Cymru a Chwarae Teg.

## 6.0 Cyllidebau'r Seilwaith

| **Maes Rhaglenni Gwariant: Seilwaith** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **BEL** | **Categori Gwariant** | **Llinell Syflaen Ddiwygiedig 2017/18 £'000** | **Newidiad au 2017/18 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2017/18 £'000** |
| Darparu Seilwaith TGCh | Cynhwysiant Digidol | Adnoddau | 1,250 | | 1,250 |
| | Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | Adnoddau | 5,740 | | 5,740 |
| | Gweithrediadau | Adnoddau | 2,051 | (24) | 2,027 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Seilwaith TGCh | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **9,041** | **(24)** | **9,017** |
| Darparu Seilwaith TGCh | Gweithrediadau Seilwaith TGCh | Dim Arian | 1,309 | | 1,309 |
| **Cyfanswm** | | | **1,309** | **0** | **1,309** |
| **Cyfanswm** | | | **10,350** | **(24)** | **10,326** |

| **Cam Gweithredu: Darparu Seilwaith TGCh** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BEL** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016/17 £'000** | **Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft 2017/18** | | | | |
| | | **2017/18 £'000** | **2018/19 £'000** | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | | | |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 16,304 | 20,550 | 7,500 | 1,500 | 19,500 | **49,050** |
| | **16,304** | **20,550** | **7,500** | **1,500** | **19,500** | **49,050** |

**Trosolwg Polisi a Strategaeth**
Bydd y cyllid yn datblygu Symud Cymru Ymlaen drwy gefnogi prosiectau a rhaglenni sy'n datblygu a gwella mynediad at y seilwaith band eang a'r rhwydwaith cyfathrebu ar hyd a lled Cymru gyfan.

**<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb – Cynhwysiant Digidol</u>**

Dyfarnwyd contract i Ganolfan Cydweithredol Cymru i helpu i gynorthwyo rhagor o bobl i elwa'n llawn o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy ddefnyddio technolegau digidol. Mae rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yn cefnogi sefydliadau partner sy'n gweithio gyda'r unigolion hynny sydd fwyaf tebygol o fod wedi'u hallgáu yn ddigidol, i'w helpu i wella eu bywydau. Mae'r contract yn weithredol hyd fis Mawrth 2017, gydag opsiwn i'w ymestyn hyd 2019 a rhoddir ystyriaeth i'r opsiwn hwn yn ystod y deuddeg mis nesaf.

**<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb – Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus</u>**

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r contract a ddyfarnwyd i BT ym mis Hydref 2014 am o leiaf saith mlynedd. Mae'r contract hwn yn darparu dull o brynu cydweithredol o ystod eang o wasanaethau rhwydweithio ac integreiddio gwasanaethau. Mae'n cefnogi mwy nag 80 o sefydliadau'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd, gan ddarparu mwy na 4,000 o wasanaethau ar safleoedd.

**<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb – Gweithrediadau Seilwaith TGCh</u>**
Y pedair prif raglen weithgaredd yw:

- **Datblygu Cyflymu Cymru (refeniw)** – dyfarnwyd contractau i wahanol ddarparwyr er mwyn helpu busnesau i sicrhau budd masnachol o’r seilwaith band eang Cyflymu Cymru a chreu difidend economaidd i Gymru. Mae’n brosiect pum mlynedd, a ddechreuodd ar ddiwedd 2015. Mae’r prosiect yn defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru a’r UE.

- **Cyflymu Cymru (cyfalaf)** - dyfarnwyd y contract i BT i ddatblygu seilwaith band eang cyflym iawn i Gymru, a fyddai’n gallu darparu cyflymder o 30mbps neu fwy. Mae’r prosiect yn defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru, yr UE a BDUK. Disgwylir i’r prosiect gael ei gwblhau yn 2017.

- **Mewnlenwi Band Eang (cyfalaf)** - dyfarnwyd y contract i Airband i ddatblygu seilwaith lloeren a diwifr i barciau busnes yng Nghymru sy’n gallu darparu 30mbps neu fwy. Roedd y prosiect yn defnyddio cyllid domestig a chyllid BDUK.

- **Mynediad i Fand Eang Cymru (cyfalaf)** - cynllun sy’n cael ei arwain gan alw, sy’n darparu grant i gefnogi mynediad i atebion band eang eraill, sy’n gallu darparu cyflymder lawrlwytho cyflym iawn a sefydlog.

Ymchwilir i gam ychwanegol ar gyfer Cyflymu Cymru ar gyfer 2017/18. Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar y seilwaith a grëwyd yn y cam cyntaf a bydd yn darparu opsiynau ar gyfer cyrraedd y safleoedd hynny nad oeddent wedi’u cynnwys yn y cam cyntaf. Bydd y prosiect yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a’r UE. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda BT i ryddhau cyllid refeniw a gynhyrchwyd yn y cam cyntaf i gefnogi’r gweithgaredd ychwanegol hwn.

Mae’r gostyngiad refeniw o £0.024 miliwn yn adlewyrchu gostyngiad yn y galw am waith datblygu contractau.

## 7.0 Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae’r blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi’u datblygu ar sail pedair thema drawsbynciol, a fydd yn pennu’r fframwaith ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau, sef:

- Cymru ffyniannus a diogel;
- Cymru iach ac egnïol;
- Cymru uchelgeisiol sy’n dysgu;
- Cymru unedig a chysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Symud Cymru Ymlaen sy’n pennu’r blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf i ddarparu rhagor o swyddi, a swyddi gwell, drwy economi gryfach a thecach, gwella a diwygio gwasanaethau cyhoeddus, a chreu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Y portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth sy’n gyfrifol am ddatblygu nifer o’r blaenoriaethau hyn, gan gynnwys 100,000 o leoedd prentisiaeth a darparu band eang i bawb.

## 8.0 Monitro a Gwerthuso'r Gyllideb

### 8.1 Monitro'r Gyllideb

Mae pob maes gwariant yn cael ei herio'n fisol ac mae swyddogion yn cynnal adolygiadau manwl chwarterol i ystyried y rhagolygon diweddaraf a chytuno ar symudiadau cyllidebol os bydd angen. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth yn derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd ar y portffolio i sicrhau bod y gyllideb yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni'r blaenoriaethau i Gymru.

### 8.2 Gwerthuso

Mae'r angen am werthusiad, a chwmpas gwerthusiad, yn cael ei ystyried ar sail achosion unigol yn ystod y gwaith o ddatblygu polisïau a rhaglenni, gan roi ystyriaeth briodol i'r risg, maint a graddfa, y dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill. Cynhelir gwerthusiadau o brosiectau a rhaglenni yn ystod prosiectau ac ar ôl eu cwblhau ac mae'n bosibl eu cynnal yn fewnol neu gan gontractwyr allanol, yn dibynnu ar y lefel o arbenigedd ac annibyniaeth sy'n ofynnol.

Mae comisiynu gwerthusiadau a gwaith ymchwil yn un ffordd o gasglu tystiolaeth ar bolisïau a rhaglenni, ond nid dyma'r unig ffordd ac yn aml nid y ffordd fwyaf priodol. Felly, mae'r portffolio yn defnyddio nifer o ddulliau gwahanol i hysbysu'r broses drwy gyngor arbenigol a dysgu. Er enghraifft, weithiau mae'r dystiolaeth bresennol yn cael ei defnyddio i lunio rhaglenni a pholisïau ac nid oes angen cynhyrchu tystiolaeth newydd bob tro, na dadl gwerth am arian dda dros wneud hynny.

Mae astudiaethau dichonoldeb yn cael eu cynnal yn aml ar ddechrau rhai prosiectau, i asesu eu haddasrwydd o ran eu datblygu. Cynhelir adolygiadau porth ar gyfer prosiectau mwy er mwyn asesu gwerth am arian a gellid cynnal archwiliadau mewnol ac allanol, sy'n darparu tystiolaeth bellach i gefnogi canlyniadau polisi.

Mae canlyniadau a pherfformiad pob prosiect a chontract sy'n cael eu rheoli o fewn y portffolio yn cael eu monitro'n barhaus.

## 9.0 Gwariant Ataliol

Mae'r gyllideb gyfan ar gyfer Gwyddoniaeth a Sgiliau yn ceisio atgyfnerthu'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hollbwysig i'n gweledigaeth o sicrhau bod Cymru yn dod yn gymdeithas fwy ffyniannus, cydnerth, iachach, tecach a mwy cyfartal.

Mae'r dull gweithredu ar sail atal er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu wedi parhau i ategu pob un o'n penderfyniadau. Mae tystiolaeth i ddangos mai gwaith cyflogedig da yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r

amddiffyniad mwyaf rhag tlodi i'r rhai sy'n wynebu risg. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd gyda mentrau a buddsoddiadau wedi'u targedu ar hyd a lled Cymru.

Wrth gyflawni canlyniadau gwell, mae mesurau gwariant ataliol yn bwysig ar gyfer y tymor hir. Mae'n bosibl priodoli'r mwyafrif o wariant y portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth i wariant ataliol. Er enghraifft, ystyrir bod cyllideb gyfan Dysgu Seiliedig ar Waith yn ataliol. Y rheswm am hyn yw mai nod y gyllideb yw darparu cyfleoedd dysgu i alluogi pobl i gynyddu eu lefelau sgiliau ac felly, sicrhau cyflogaeth neu wella eu rhagolygon cyflogaeth. Mae'r rhaglen yn helpu i gadw'r lefelau diweithdra yn isel, gan leihau dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod y bobl hynny sy'n cyflawni cymhwyster Lefel 3 mewn sgiliau busnes ac yn y blaen (neu uwch) yn gwella eu rhagolygon bywyd ac yn gwella uchelgeisiau unigol.

Hefyd, cynlluniwyd ein rhaglenni cyflogaeth a sgiliau i fynd i'r afael â materion sgiliau a chyflogadwyedd gyda'r nod o helpu unigolion i gael mynediad i'r gweithle, aros yn gweithle a gwneud cynnydd ynddo. Maent hefyd yn darparu cyngor a chymorth angenrheidiol i gyflogwyr ar sut i ehangu a datblygu eu busnesau yn ogystal â chynnal maint eu trosiant a'u helw.

Mae'r rhaglenni hyn sy'n targedu unigolion di-waith yn cael effaith arwyddocaol ar wariant ataliol, oherwydd ceir elw net trysorlys am bob unigolyn sy'n sicrhau cyflogaeth ac sy'n gadael y gofrestr diweithdra. Hefyd, ar ôl sicrhau cyflogaeth, bydd gostyngiad yn y galw am fudd-daliadau ategol.

Lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau addysgol rhwng gwahanol grwpiau yw un o'r prif amcanion yr ydym yn ceisio eu cyflawni. Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, bydd hyn yn arwain plant a phobl ifanc allan o dlodi, yn lleihau'r tebygolrwydd na fyddant mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) neu'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, ac yn rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt gael canlyniadau iechyd a bywyd gwell. Mae nifer o'n rhaglenni wedi'u creu ar sail anghenion pobl ifanc ac atebolrwydd asiantaethau gwahanol, sy'n atgyfnerthu ac yn cyflawni canlyniadau gwell i'r grŵp hwn.

## 10.0 Effaith Gadael yr UE ar Brydain

Mae'r portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth yn rheoli cyfanswm o 20 o brosiectau sy'n cael eu hariannu gan yr UE, gyda chyfanswm o £646 miliwn ar gyfer y prosiectau. Rydym yn anelu at ddefnyddio £252 miliwn o gyllid yr UE hyd at 2021 a defnyddio arian cyfatebol Llywodraeth Cymru (yn amodol ar gymeradwyaeth cyllidebau yn y dyfodol) o £394 miliwn.

Yn rhan Sgiliau y portffolio, ceir 9 prosiect refeniw Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n rhan o'r cylch Cyllido newydd ar gyfer 2014-2020, gan gynnwys ReAct, Prentisiaethau, Hyfforddiaethau a Thwf Swyddi Cymru. Gwerth cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop sydd wedi'i chymeradwyo hyd yma yw tua £150 miliwn, a disgwylir i hyn gynyddu i tua £190 miliwn yn unol â'r cytundebau pontio gyda

WEFO rhwng rhaglenni cyllid 2007-2014 a 2014-20. Disgwylir i'r prosiectau hyn gefnogi tua 137,000 o gyfranogwyr.

Mae dau brosiect cyfalaf Seilwaith yr UE i helpu i gyflawni'r agenda band eang. Mae yna dri phrosiect Gwyddoniaeth yr UE o dan raglen refeniw SÊR Cymru a chwe phrosiect Arloesi yr UE, sy'n cynnwys cymysgedd o ofynion cyfalaf a refeniw.

Mae gwarant gan Drysorlys y DU ar gyllido'r Cronfeydd Strwythurol presennol a rhaglenni eraill yr UE yn cyflawni ein gofynion cyllido yn rhannol ond byddwn yn parhau i ymdrechu i sicrhau na fydd Cymru yn colli ceiniog o'r cyllid mae'n ei dderbyn yn awr gan yr UE a chyllid yn y dyfodol a fyddai wedi'i ragweld.

## 11.0 Costau Deddfwriaeth

Mae costau deddfwriaethau a ddygwyd ymlaen sy'n cael effaith ar y portffolio wedi'u disgrifio yn adran 11.1 i 11.3 isod.

## 11.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Bydd y Ddeddf yn golygu bod polisïau yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy ac yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus rhestredig (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) feddwl mwy am y tymor hwy, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau, a mabwysiadu agwedd fwy gydgysylltiedig.

Drwy sefydlu un fframwaith cyfreithiol rhwymol, mae'r Ddeddf yn darparu dull o fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r gorgymhlethdod a nodwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn darparu ffordd o ddatblygu ein capasiti i gyflawni yn y dyfodol. Wrth gynllunio'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017/18, rydym wedi manteisio ar y cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiadau mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a sefydlwyd gan y Ddeddf a chydbwyso effeithiau hirdymor posibl ein penderfyniadau yn erbyn ein hanghenion tymor byr.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i wireddu'r saith nod llesiant a nodwyd yn y Ddeddf. Mae gofyniad hefyd i ddangos tystiolaeth y defnyddir y pum egwyddor datblygu cynaliadwy i gyflawni'r nodau.

Mae'r portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth eisoes yn cynllunio llawer o'i weithgareddau gweithredol er mwyn sicrhau eu bod yn parchu'r gofynion hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a mireinio rhaglenni a gweithgareddau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymeidgaethau o dan y Ddeddf.

Y canlyniadau a ragwelir yw y bydd gan bob rhan o gymdeithas y sgiliau cywir i gael mynediad i wasanaethau (iechyd ac addysg), cyflogaeth, a hamdden sydd eu hangen ar bobl.

## 11.2 Bil Cymru

Ni ragwelir y bydd Bil Cymru yn dod i rym tan fis Ebrill 2018 ac ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer y portffolio hwn yn 2017/18, ac eithrio'r adnoddau staff sydd eu hangen i baratoi ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau newydd.

## 11.3 Deddfwriaethau Llywodraeth y DU

Mae nifer o filiau Llywodraeth y DU sy'n cael eu hystyried nawr, a allai gael effaith ar feysydd polisi sydd wedi'u datganoli yng Nghymru pan ddônt i rym. Mae'r rhain yn cynnwys Bil Addysg Uwch ac Ymchwil a Deddf yr Economi Ddigidol.

## 12.0 Gwariant Cyfalaf

Mae hyn yn cael ei drafod yn yr adrannau uchod.

## 13.0 Ystyriaethau Trawsbynciol

Mae'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi a'r Seilwaith, sy'n cynnwys y portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth, wedi'i atodi yn Atodiad C y papur tystiolaeth hwn.

Mae'r asesiad yn cwmpasu effaith cydraddoldeb ein penderfyniadau gwariant ar y nodweddion gwarchodedig, ynghyd â'r effaith ar y Gymraeg, Hawliau'r Plentyn, Trechu Tlodi, sy'n dod ynghyd o dan yr ambarél llesiant, fel y'i nodir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried buddsoddiadau y gallwn eu gwneud yn awr er mwyn atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid oes Asesiad ar wahân o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft gyffredinol 2017/18 ac ar gyfer MEG yr Economi a'r Seilwaith wedi'u cyhoeddi ar wahân, ond maent yn ffurfio rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn.

## 14.0 Meysydd Penodol – Ymchwil a Gwerthusiad Gwyddonol

**Trosolwg o'r Polisi a'r Strategaeth**

Mae Gwyddoniaeth yng Nghymru o safon uchel, ond nid oes gan Gymru ddigon o wyddonwyr. Amcangyfrifir bod diffyg o 600 o ymchwilwyr mewn meysydd sy'n hollbwysig i ddatblygiad economi Cymru, gan gynnwys

meddygaeth glinigol, peirianneg, mathemateg a ffiseg, TGCh a'r gwyddorau cymdeithasol cymhwysol. Mae Rhaglen Sêr Cymru 2 yn ceisio unioni hyn drwy ddenu gwyddonwyr i Gymru fel Uwch Gymrodyr a Chymrodyr Iau drwy gynllun cymrodoriaeth Marie Skłodowska-Curie Actions COFUND a chais am gymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Bydd y cyllidwyr a fydd yn darparu arian cyfatebol yn cynnwys: Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Prifysgolion, Diwydiant ac Elusennau.

## 14.1 Cyllid ar gyfer polisi gwyddoniaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y polisi gwyddoniaeth yng Nghymru. Mae'r cyllidebau craidd yn talu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Ewropeaidd fel a ganlyn:

Cymrodoriaethau Ymchwil Marie Skłodowska-Curie Actions COFUND.
Bydd Cymrodoriaethau Ymchwil yn cael eu targedu ar gyfer ymgeiswyr nodedig; 3-5 mlynedd ar ôl gradd doethuriaeth, o unrhyw le y tu allan i'r DU i ddod i weithio yng Nghymru. Rydym yn ceisio cefnogi tua 90 o gymrodorion am gyfnod o tua thair blynedd. Cyfanswm gwerth y grant hwn yw €24.1 miliwn (gyda €9.5 miliwn gan y Comisiwn Ewropeaidd).

Rydym wedi sicrhau cefnogaeth Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer rhaglen Sêr Cymru II. Mae'r cynnig hwn wedi'i ddisgrifio fel prosiect 'asgwrn cefn' ar gyfer WEFO, gyda chyfanswm gwerth o £39 miliwn (£23 miliwn o Gronfeydd Strwythurol). Bydd y prosiect yn cynnwys y ddau fath canlynol o gymrodoriaeth:

- Bydd cymrodoriaeth 'Seren y Dyfodol' yn swyddi uchel eu bri a chystadleuol iawn, wedi'u cynllunio i ddenu 'sêr gorau'r dyfodol' o feysydd ymchwil academaidd. Rydym yn bwriadu hwyluso tua 26 o becynnau cymrodoriaeth pum mlynedd sêr y dyfodol, pob un yn derbyn cyllid o £0.2 miliwn y flwyddyn.

- Cynlluniwyd Cymrodoriaethau Ymchwil cynllun 'Cymrodoriaethau Cymru' ar gyfer Ymgeiswyr serol, 3-5 mlynedd ar ôl gradd ddoethuriaeth, o unrhyw le yn y byd yn cynnwys y DU i ddod i weithio i Gymru. Rydym yn anelu at gefnogi tua 30 o gymrodoriaethau tua thair blynedd o hyd.

Mae hyn yn ychwanegol at gynllun presennol £30 miliwn Sêr Cymru 1.

## 14.2 Gwyddoniaeth i Gymru, rhaglenni Sêr Cymru a hybu sgiliau STEM.

Mae addysg ffurfiol mewn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) (cwricwlwm, asesu a chymwysterau a hyfforddiant a datblygiad athrawon) yn faterion i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd cynllun cyflenwi Addysg a Hyfforddiant STEM, yn dangos sut y bydd y pynciau hyn yn cael eu cefnogi ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 3 i 19 oed. Mae grŵp mewnol, wedi'i gadeirio gan ein Prif Gynghorydd Gwyddonol, yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu hyn.

## 15.0 Meysydd penodol - Sgiliau

### 15.1 Cymorth i helpu pobl i gael gwaith, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru

Darperir cymorth i helpu pobl i gael gwaith drwy nifer o raglenni a gwasanaethau cyflogadwyedd oedolion, sy'n cynnwys:

- ReAct
- Y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd
- Twf Swyddi Cymru
- Hyfforddiaethau
- Porth Sgiliau

Cynlluniwyd y rhaglen **ReAct** i ategu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i weithwyr di-waith gan y Ganolfan Byd Gwaith a Twf Cymru drwy gyfres o fesurau a gynlluniwyd i ddileu'r rhwystrau o ran sicrhau cyflogaeth. Mae'r rhaglen ReAct yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae'r **Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd** yn adlewyrchu dull cyflawni gwahanol, gyda mwy o ffocws ar leoliad gwaith a pharhad cymorth ar ôl i unigolyn ddod o hyd i waith. Cynnwys craidd y rhaglen yw lleoliad gwaith o ansawdd uchel neu hyfforddiant gyda chyflogwr penodol, sy'n cael ei gyfuno gyda hyfforddiant i baratoi ar gyfer gwaith a darparu sgiliau hanfodol. Bydd y rhaglen yn herio rhwydwaith darparwyr Cymru i gyflawni mewn ffyrdd gwahanol, creu cysylltiadau agosach gyda chyflogwyr, gyda'r nod o ddarparu canlyniadau cyflogaeth gynaliadwy i gyfranogwyr.

Mae **Twf Swyddi Cymru** yn darparu cyfle swydd i bobl ifanc ddi-waith am gyfnod o chwe mis gyda chyflog ar lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu uwch, am o leiaf 25 awr yr wythnos.

